# ‘GWNEUD PETHAU’N WAHANOL: ELFEN TIR COMIN GLASTIR A GRWPIAU GWEITHREDU LLEOL’

## GWERTHUSO RÔL SWYDDOGION DATBLYGU TIROEDD COMIN GAN DDEFNYDDIO'R FETHODOLEG LEADER



**HYDREF 2012**

Cynhyrchwyd gan:

Siôn Brackenbury
Commons Vision Ltd
31 Pennard Drive
Southgate
Abertawe
SA3 2BL

Ff: 01994 240242
E: info@commonsvision.com
G: www.commonsvision.com

Chris Short a Nick Lewis
CCRI, Campws Oxstalls
Prifysgol Swydd Caerloyw
Oxstalls Lane
Longlevens
Caerloyw
GL2 9HW

Ff: 01242 714122
E: ccri@glos.ac.uk
G: www.ccri.ac.uk

Lluniau'r clawr gan S Brackenbury a C Short

## Cydnabyddiaethau

Ariannwyd gwerthusiad Rôl Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin trwy Fesur Cymorth Technolegol Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 fel rhan o Raglen Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin, Cymru.

Cafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan:

Helen Murray, Steven Bradley (PLANED), Lowri Owain, Daniel Delaney (Cadwyn Clwyd) a Jane Davies, Robin Griffiths (Menter Môn). Hefyd Delyth Jones (Cadwyn Clwyd) ac Angharad Jones (Menter Môn) y Swyddogion Datblygu Tir Comin a wnaeth yr arolygon dros y ffôn; Berry Coffman, Gareth Waters, Trefor Lloyd-Jones, Owen Jenkins a Gwyn Rowlands a Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin Cymru.

Diolch i'r Cymdeithasau Porwyr a gyfrannodd at yr arolwg dros y ffôn.

Ymgynghorwyd â sawl sefydliad wrth gynhyrchu'r arolwg a chafwyd sylwadau gwerthfawr gan Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru), Geraint Jones (Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro), Jonathon Hudson (CCGC), Arfon Hughes (CCGC), Stuart Reid (CCGC), Buddug Jones (CCGC), Charlotte Williams (CCGC), Derek Morgan (Fforwm yr Ucheldir a Phorwr), Nick Fenwick (Undeb Amaethwyr Cymru) a Peter Howells (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr).

**CYNNWYS**


CRYNODEB GWEITHREDOL AC ARGYMHELLION
1.0 CEFNDIR
  1.1 Cefndir y comisiwn
  1.2 Brîff i'r ymgynghorwyr
2.0 CYFLWYNIAD
3.0 GWYBODAETH GEFNDIR
  3.1 Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol yng Nghymru – Tir Gofal a Glastir
  3.2 Tir Mynydd
  3.3 Ffynonellau cyllid eraill
  3.4 Heriau wrth gyflawni Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol
  3.5 Dull gweithredu gwahanol
  3.6 LEADER
  3.7 Rôl y Swyddog Datblygu Tiroedd Comin (SDTC)
  3.8 Dulliau trefniadol o weithio
4.0 DOD Â GWEITHREDWYR LLEOL YNGHYD
  4.1 Ymateb i arolwg dros y ffôn
  4.2 Lleoliad Cymdeithasau Porwyr (CPau)
  4.3 Amseru'r cyswllt cychwynnol a gweithgaredd ETC cyn-Glastir
  4.4 Cyswllt cychwynnol â'r SDTC
5.0 MEITHRIN GALLU
  5.1 Datblygu'r cytundeb
  5.2 Ceisiadau llwyddiannus i ETC Glastir
  5.3 Darpariaeth cefnogaeth y Swyddogion Datblygu Tir Comin
6.0 ADOLYGU A CHYDNABOD
  6.1 Asesiad cyffredinol o effaith y SDTC a meysydd cyfranogi eraill
  6.2 Trosoledd economaidd
7.0 SAFBWYNT Y BUDD-DDEILIAID
8.0 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION
  8.1 Newidiadau argymelledig
  8.2 Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru
  8.3 Argymhellion ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru
  8.4 Argymhellion ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol

9.0 CYFEIRIADAU
10.0 GEIRFA
11.0 ATODIADAU
  (i) Gofynion cymhwysedd Elfen Tir Comin Cymru Gyfan
  (ii) Grwpiau Gweithredu Lleol (GGLl) Cymru
  (iii) Disgrifiad Swydd Swyddog Datblygu Tiroedd Comin
  (iv) Holiadur Arolwg Cymdeithasau Porwyr (CP)

**Rhestr o dablau**


| | |
|---|---|
| Tabl 1.0 | Dadansoddiad o ymatebion i'r arolwg dros y ffôn |
| Tabl 2.0 | Lleoliad CP yn yr arolwg dros y ffôn yn ôl Awdurdod Lleol |
| Tabl 3.0 | Presenoldeb dynodiadau tir ymhlith tiroedd comin yr arolwg ffôn CP |
| Tabl 4.0 | Dim dynodiad ar diroedd comin yn ôl ardaloedd GGLl |
| Tabl 5.0 | Cyfarfodydd porwyr yn ôl ardaloedd GGLl |
| Tabl 6.0 | Ymuno â neu ystyried ymuno â CAA yn ôl ardal GGLl |
| Tabl 7.0 | Dadansoddiad o weithgareddau SDTC gyda'r CP yn ystod y cam DD |
| Tabl 8.0 | Rhesymau dros dynnu'n ôl o broses Glastir? |
| Tabl 9.0 | Camau ym mhroses ETC Glastir yn ôl GGLl |
| Tabl 10.0 | Cyfranogiad SDTC yn ystod camau'r cytundeb |
| Tabl 11.0 | Pwysigrwydd mewnbwn SDTC |
| Tabl 12.0 | Beth na allai'r SDTC gynnig |
| Tabl 13.0 | Effaith gyffredinol y SDTC |
| Tabl 14.0 | Pa gyngor arall y mae'r SDTC wedi'i gynnig i'r CP |


**Rhestr o ddarluniau**


| | |
|---|---|
| Darlun 1.0 | Dosbarthiad rhanbarthau GGLl/SDTC |
| Darlun 2.0 | Cydberthnasau rhwng y 3 GGLl a LlC |
| Darlun 3.0 | Cyfweliadau a gynhaliwyd yn ôl GGLl |
| Darlun 4.0 | Presenoldeb dulliau rheoli cyn ystyried ETC Glastir |
| Darlun 5.0 | Math ac amledd gweithgarwch rheoli ar y comin |
| Darlun 6.0 | A oedd porwyr wedi cwrdd â'i gilydd cyn ETC Glastir |
| Darlun 7.0 | A wnaeth y porwyr ymuno â neu ystyried Cynllun Amaeth-Amgylcheddol (CAE) blaenorol |
| Darlun 8.0 | Cytundebau CAA a wnaed neu a ystyriwyd |
| Darlun 9.0 | Grwpiau diddordeb eraill yn gysylltiedig â Chymdeithasau Pori neu reolaeth? |
| Darlun 10.0 | Faint o gefnogaeth a gynigiwyd gan unrhyw grwpiau diddordeb cysylltiedig |
| Darlun 11.0 | Lle cafodd yr ymatebwr wybod gyntaf am Glastir |
| Darlun 12.0 | Math o wybodaeth ysgrifenedig a roddwyd i'r Cymdeithasau Porwyr gan y SDTC |
| Darlun 13.0 | A gynorthwyodd y SDTC â'r ymgynghoriad |
| Darlun 14.0 | A gynorthwyodd y SDTC â thasgau amrywiol |
| Darlun 15.0 | Arweiniad a gafwyd gan y SDTC |
| Darlun 16.0 | Tasgau y gwnaeth y SDTC gynorthwyo â hwy |
| Darlun 17.0 | Effeithlonrwydd mewnbwn y SDTC |
| Darlun 18.0 | Barn gyffredinol am y SDTC |

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Elfen Tir Comin (ETC) Gastir a'r dull gweithredu Swyddog Datblygu Tiroedd Comin (SDTC) wedi gwneud achos cryf dros weithio'n wahanol. Ar draws Cymru, penodwyd deunaw SDTC trwy'r tri Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl), Menter Môn, Cadwyn Clwyd a PLANED. Fe wnaeth y GGLl fabwysiadu dull gweithredu tebyg i LEADER; dyma ddull o weithredu o'r gwaelod i fynnu sy'n gwerthfawrogi pobl fel prif ased ardaloedd gwledig, gweithio gyda Chymdeithasau Pori (CP) i ddatblygu eu hyderu a'u gallu i fynd ymlaen â chais i Elfen Tir Comin Glastir.

Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso effaith dull gweithredu tebyg i LEADER mewn cyd-destun gwasanaethau amaethyddol yn y maes. Casglwyd gwybodaeth o dair ffynhonnell, (i) y CP a gyfranogodd yn yr holiadur dros y ffôn, (ii) y SDTC (iii) a'r Budd-ddeiliaid sydd wedi gweithio gyda'r SDTC ers eu penodi yn 2011.

Ar y cyfan, roedd lefel uchel o fodlonrwydd â rôl y SDTC ymhlith y CP, ac roedd dros 90% yn cytuno fod y swydd yn 'bwysig iawn'. Roedd argaeledd SDTC gwybodus a deallus yn bwysig o ran galluogi Pori i fynd rhagddo fewn cynlluniau ETC Glastir; roedd hyn yn amlwg o'r arolwg o gymdeithasau pori.

"*Roedd y ffaith eu bod bob amser ar ben arall y ffôn yn amhrisiadwy.. Roedd y SDTC bob amser yn barod i gynorthwyo, os nad oeddent yn gwybod yr ateb i ymholiad a wnaed gennych, buasent yn ei ganfod ac fel arfer fe gaech alwad ganddynt o fewn munudau â'r ateb yr oedd arnoch ei angen*."

Roedd y SDTC yn fodlon iawn â'u rolau ac yn teimlo'u bod yn cyfrannu'n bositif at ddiogelu rheolaeth tir comin i'r dyfodol yng Nghymru. Yn yr un modd, roedd budd-ddeiliaid, ar waethaf pryder cychwynnol, yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi dull hyd braich, hyblyg ac ymaddasol y SDTC.

Mae'r dull gweithredu SDTC wedi bod yn fanteisiol ac wedi'i groesawu, ac adlewyrchir hynny gan y mwyafrif o ymatebion positif gan y budd-ddeiliaid a'r CP. Mae cyfleoedd i wella hyfforddiant y SDTC a chysondeb y gwasanaeth a gynigir i CP ac wrth gasglu a defnyddio data.

Mae dull gweithredu tebyg i LEADER y SDTC, yn meithrin gallu porwyr a CP, wedi profi fod ganddynt fanteision sylweddol. Dylid ystyried defnyddio'r dull gweithredu hwn mewn rhannau eraill o ddarpariaeth Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol (CAA) yng Nghymru.

"*Mae'r Grwpiau Gweithredu Lleol a'r Swyddogion Datblygu Tir Comin yn cynnig newydd-deb, brwdfrydedd a dull gweithredu hyd braich sy'n amhrisiadwy wrth weithio ar y tir comin* " Geraint Jones, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

Crynodeb o Argymhellion

Llywodraeth Cymru – Gwersi a ddysgwyd

- Mabwysiadu'n ffurfiol ymagwedd ymaddasol at bolisi Amaeth-amgylcheddol yn ystod profion byw CAA ar sail adborth gan Swyddogion a derbynyddion
- Gweithredu'n gyflym a chadarn i fynd i'r afael â gwybodaeth anghywir
- Darparu pecynnau gwybodaeth o fewn da bryd cyn cychwyn cyfnod ceisiadau
- Darparu hyfforddiant mewnol i SDTC ar y cynllun ETC, yn enwedig o ran hwyluso
- Cydnabod ac adeiladu ar werth y dull gweithredu 'hyd braich', efallai gwneud dadansoddiad SWOT a'i gynnwys yn y meddylfryd ar gyfer 2014.

Llywodraeth Cymru - Cyfathrebu

- Sefydlu fforwm trafod rhwng LIC, SDTC a phartneriaid perthnasol i alluogi ymagwedd ymaddasol at bolisi
- Sefydlu fforwm trafod chwarterol rhwng Goruchwylwyr Prosiect SDTC, LIC, CCGC a grwpiau diddordeb arbennig eraill

Llywodraeth Cymru - Dealltwriaeth

- Sefydlu nifer o astudiaethau achos ar draws Cymru i fonitro cynnydd ETC Glastir ac effaith tymor hir dull gweithredu tebyg i LEADER y SDTC
- Gwneud archwiliad cymdeithasol o effaith ETC Glastir trwy astudiaethau achos
- Gwneud gwerthusiad ariannol ar lefel gymunedol o'r manteision a'r trosoledd a ddeilliodd o ETC Glastir
- Deall gwerthoedd a dylanwadau ar dir comin trwy wneud astudiaeth marchnata cymdeithasol o dir comin yng Nghymru

Llywodraeth Cymru – Edrych i'r dyfodol

- Ystyried ymestyn dull gweithredu tebyg i LEADER a ddarperir gan y SDTC i gytundebau galluogol o fewn elfennau eraill Glastir
- Ystyried rôl y SDTC wrth ddarparu cyngor a gwybodaeth ar y berthynas rhwng gwasanaethau ecosystemau a thir comin
- Buddsoddi amser Swyddogion i gynnal ac adeiladu ar y CP a sefydlwyd at ddibenion Glastir i ddarparu fframwaith cadarn i'r dyfodol ar gyfer cyfathrebu â chymunedau pori tir comin Cymru
- Elwa ar sgiliau ac arbenigedd y SDTC wrth adolygu Cofrestri Tiroedd Comin Cymru

Argymhellion ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru

- Gwneud y gorau o'r cyfle hwn i weithio gyda CP cynrychioliadol, cyfasoddedig
- Gochel rhag tanseilio datblygiad CP trwy gyd-drafod cytundeb Adran 15 ag unigolyn
- Cychwyn paratoi protocol ar gyfer cyfathrebu â CP yn y tymor hir
- Bod yn barod i fynd i'r afael â materion tanbori gyda LIC a chychwyn ystyried dulliau o gynyddu pori

Argymhellion ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol

Grwpiau Gweithredu Lleol - Cysondeb

Datblygu dull gweithredu sy'n gyffredinol gyson o fewn fframwaith cyffredin ar draws yr ardaloedd GGLl i'w gyflawni trwy:

- Raglen gytunedig o hyfforddiant Cymru gyfan ar gyfer Swyddogion SDTC
- Dull gweithredu cyffredinol cyson at gasglu, dadansoddi a rheoli data er mwyn gwella gwerth y data hyn a gwella monitro a gwerthuso
- Mynd i'r afael â materion atebolrwydd a risg a chynnig gwasanaethau tebyg i'r CP

Grwpiau Gweithredu Lleol - Cydweithio

- Datblygu perthynas weithio strategol gyda CCGC a'i swyddogion rhanbarthol
- Trwy drafodaeth â CCGC, nodi cytundebau rheoli Adran 15 presennol neu rai dan ystyriaeth a phenderfynu sut maent yn berthnasol i ETC Glastir ac Elfennau wedi'u Targedu
- Nodi cyfleoedd i weithio ar y cyd ar fentrau presennol
- Parhau i ddeall, parchu a gweithio o fewn strwythurau pori presennol lle maent yn bodoli
- Ymgysylltu â phartneriaethau a gweithredwyr lleol presennol

Grwpiau Gweithredu Lleol – Datblygu gallu i'r dyfodol

- Parhau i gynnig cyngor ac arweiniad i ddeiliaid presennol cytundebau
- Cynnig cyngor ar gydymffurfio â'r ETC a chynorthwyo i ddatrys problemau
- Cynorthwyo CP i allu rheoli newid wrth i gytundebau esblygu mewn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau
- Cynorthwyo CP i gyfathrebu â budd-ddeiliaid allanol
- Cynorthwyo'r tiroedd comin hynny sy'n dymuno ystyried ac yn gymwys i ymaelodi â'r Elfen wedi'i Thargedu
- Cynnig cyngor cychwynnol i'r porwyr hynny sy'n dymuno cynnwys eu fferm eu hunain neu dir caeedig yn yr Elfen wedi'i Thargedu
- Parhau i gynnig cyngor ar gais i diroedd comin na aeth tu hwnt i gam Datganiad o Ddiddordeb, ond a ddaeth yn gyfansoddedig

## 1.0 CEFNDIR

### 1.1 Cefndir y comisiwn

Elfen Tir Comin Glastir (ETC) yw cynllun rheoli tir cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Yn hanesyddol, mae cyflawni cytundebau cynlluniau Amaeth-amgylcheddol (CAE) ar dir comin wedi bod yn llawn anawsterau. Yn y CAA blaenorol, fe wnaeth Tir Gofal (TG) ac Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (AAS) lwyddo i lunio cytundebau ar ddim ond 2% o'r arwynebedd tir comin cymwys yng Nghymru. Ym mlwyddyn gyntaf ETC Glastir, ymunodd tua 35% o arwynebedd tir comin cymwys Cymru â'r cynllun. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried sut mae ETC Glastir wedi'i ddarparu'n wahanol.

### 1.2 Brîff i'r ymgynghorwyr

Comisiynwyd Commons Vision (CV) a'r Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedol (CCRI) ar 16 Awst 2012 i wneud arolwg o'r rôl Swyddog Datblygu Tiroedd Comin (SDTC) gan ddefnyddio methodoleg LEADER. Roedd hyn yn cynnwys tair prif elfen:

(i) Holiadur dros y ffôn ar gyfer y CP sydd wedi gweithio gyda'r Swyddogion Datblygu Tir Comin

(i) Cyfweliadau wyneb yn wyneb â'r Swyddogion Datblygu Tir Comin

(i) Cyfarfod o'r budd-ddeiliaid sydd wedi gweithio gyda'r Swyddogion Datblygu Tir Comin

Mae'r ddogfen hon yn archwilio'r defnydd o'r dull gweithredu LEADER a roddwyd ar waith trwy gyflogi Swyddogion Datblygu Tir Comin trwy'r 3 Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) yng Nghymru; Menter Môn, Cadwyn Clwyd a PLANED. Mae'n ystyried gwerth y dull gweithredu hwn o ran datblygu gallu Cymdeithasau Pori a chyflawni ETC Glastir.

## 2.0 CYFLWYNIAD

Yng Nghymru, mae tua 173,366 hectar o dir comin sy'n cynrychioli 8.5% o'r arwynebedd tir (CCGC, 2012). Mae tiroedd comin yn bwysig yn amaethyddol ac yn ddiwylliannol, ac ynghlwm wrth batrymau rheoli traddodiadol sy'n gysylltiedig â ffermydd sy'n gweithredu o fewn ardaloedd economaidd ymylol. Yng Nghymru, rheolir tiroedd comin ar gyfer cynhyrchu da byw eang, ac mae 52% o'r hawliau cofrestredig ar gyfer defaid, 34% ar gyfer gwartheg a 26% ar gyfer ceffylau a merlod (Aitchison, 1997).

Gwerthfawrogir tir comin oherwydd ei dirwedd, diddordeb naturiol a hanesyddol, ac felly, mae'n cynnwys Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDGA) a Henebion Cofrestredig (HC). Mae rheolaeth eang tir comin yn rhan sylfaenol o reolaeth a chynnal a chadw tirweddau eiconaidd a chynefinoedd bioamrywiol.

Mae cydnabyddiaeth gynyddol o gyfraniad tir comin a chymunedau amaethyddol at ddarparu nwyddau a gwasanaethau ecosystemau, o atafael carbon, cynefinoedd ac amddiffyn rhag llifogydd, i gyflenwi bwyd a lle ar gyfer mynediad a hamdden. Yng Nghymru, mae mynediad cyhoeddus agored ar gyfer hamddena anffurfiol ar 99% o'r tiroedd comin (CCGC, 2012).

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd adnoddau naturiol Cymru;

'*Mae angen i ni sicrhau ein bod yn rheoli ein tir a'n dŵr i wneud y defnydd gorau o'r adnodd cyfyngedig hwn ac i sicrhau ein bod yn darparu budd cyhoeddus o'i reolaeth*. *Tir Cymru yw ein sylfaen adnoddau yn y pen draw.'*
Cynllun Adnewyddu Economaidd (2010)

Ar lefel gymunedol, mae gan diroedd comin werth diwylliannol pwysig ac maent yn gadarnle'r iaith Gymraeg a hunaniaeth Cymru. Mae patrymau rheoli traddodiadol tymhorol yn chwarae rhan allweddol ym mywyd cymunedau amaethyddol.

Mae tir comin, ei reolaeth a'i arferion yn rhan unigryw o gymeriad a thirweddau Cymru.

## 3.0 GWYBODAETH GEFNDIR

### 3.1 Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol yng Nghymru – Tir Gofal a Glastir

Mae'r angen i gefnogi gweithgarwch pori ar dir comin gan ddiwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd wedi'i gydnabod ers tro byd, a'r prif fecanwaith ar gyfer hyn yw Echel 1 Colofn Datblygu Gwledig y Polisi Amaethyddol Cyffredinol.

Cyn sefydlu Glastir yn 2012, Tir Gofal oedd mesur CAA LlC ar gyfer Cymru. Nod y cynllun oedd diogelu nodweddion amgylcheddol, diwylliannol a hanesyddol, gan hybu amaethyddiaeth gynaliadwy. Darparwyd y cynllun gan yr hyn sy'n cyfateb i 43 Swyddog Llawn Amser a gyflogid gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGW) tan 2007, pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y cynllun i LlC (Rheoliad Diwygio Tir Comin Cymru, 2006).

Roedd Archwiliad Iechyd Polisi Amaethyddol Cyffredin 2008 yn mynnu bod pob aelod wladwriaeth yn mynd i'r afael â risgiau newydd a heriau megis y newid yn yr hinsawdd. Canfu adolygiad o gynlluniau Echel 2 yng Nghymru nad oedd gan y cynlluniau oedd yn bodoli amcanion clir, mesuradwy, ac nid oeddent yn mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn Archwiliad Iechyd PAC (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008).

Mewn ymateb, cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones, y byddai CAA newydd, Glastir, yn disodli'r pedwar cynllun Echel 2 yng Nghymru, sef Tir Cynnal, Tir Gofal, Tir Mynydd a'r Cynllun Ffermio Organig.

Byddai gan y cynllun Glastir newydd ddull gwahanol o ymdrin â'r heriau newydd a wynebai'r sector amaethol. Byddai ar agor i bob ffermwr yng Nghymru ac yn cynnwys Lefel Mynediad Cymru Gyfan (MCG), Elfen wedi'i

Thargedu Lefel Uchaf (ET), Elfen Tir Comin (ETC), Cynllun Lleihau ac Effeithlonrwydd Carbon Amaethyddol (ACRES) ac Elfen Coetiroedd Glastir (ECG).

Agorodd ceisiadau ar gyfer ETC Glastir ar 1 Chwefror 2011.

**3.2 Tir Mynydd**
Mae Tir Mynydd yn daliad cymorth sydd ar gael ers 2001 trwy Gynllun Datblygu Gwledig (CDG) Cymru. Nod y cynllun oedd cefnogi a chynnal cynhyrchu da byw o fewn Ardaloedd Llai Ffafriol (ALlFf) ac Ardaloedd Dan Anfantais Fawr yng Nghymru, y mae llawer o'r rhain yn dir comin.  Gwneid y taliad i'r ffermwr unigol, ni waeth a yw'r unigolyn yn arfer hawliau tir comin mewn ardal a reolir ar y cyd.  Mae'r taliad hwn wedi bod yn ffynhonnell incwm bwysig i fusnesau ffermio sy'n gweithredu o fewn 80% o dir amaethyddol Cymru a ddynodir yn ALlFf.  Caewyd y cynllun i ymgeiswyr newydd pan gyhoeddwyd Glastir, a bydd taliadau trwy gynllun Tir Mynydd yn dod i ben yn 2013.

**3.3 Ffynonellau cyllid eraill**
Mae ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael ar gyfer tiroedd comin yn cynnwys arian grant ar gyfer gweithgareddau wedi'u targedu trwy gytundebau Adran 15 ac Adran 16 o dan ddarpariaethau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) a weinyddir gan CCGC.  Mae enghreifftiau hefyd o weithgarwch a ariennir trwy grant partneriaeth ar diroedd comin megis Menter Comin Gŵyr a Phrosiect Comin Abergwesyn.  Er bod effaith prosiectau o'r fath wedi bod yn bwysig yn lleol, nid ydynt yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer tiroedd comin yng Nghymru.

**3.4 Heriau wrth gyflawni Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol**
Yn hanesyddol, mae cyflawni cytundebau CAA ar diroedd comin yng Nghymru, ac i ryw raddau yn Lloegr, wedi bod yn anodd.  Cyn cyflwyno CAA Glastir, roedd llai na 2% o'r tir comin cymwys yng Nghymru wedi ymuno â CAA, yn ôl Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cymru, 2012 (Mae'r meini prawf cymhwyster ar gyfer cyfranogiad tiroedd comin yn ETC Glastir wedi'u rhestru yn Atodiad (i))

Mae nifer o resymau dros hyn:

- **Llywodraethu tir comin**

Yng Nghymru, mae amrywiaeth o ddulliau o lywodraethu tiroedd comin, sy'n cynnwys:

- sefydliadau hierarchaidd â chyfansoddiad lle cynrychiolir sawl CP gan bwyllgor gwaith sy'n trafod materion llywodraethu
- CP unigol sydd â chyfansoddiad a strwythur trefniadol ffurfiol
- grwpiau heb gyfansoddiad sy'n cydweithio ar faterion llywodraethu;
- deiliaid hawliau tir comin sydd efallai'n cwrdd yn anffurfiol i drafod rheoli tir comin
- deiliaid hawliau tir comin sy'n cwrdd fel grŵp i drafod rheolaeth y comin, ond heb arfer eu hawliau'n weithredol

- tiroedd comin dan ofal yr awdurdod lleol
- tiroedd comin a reolir gan y tirfeddiannwr lle nad oes unrhyw ddeiliaid hawliau gweithredol
- dim rheolaeth weithredol na grwpiau anffurfiol deiliaid hawliau
- dim tirfeddianwyr gweithredol na deiliaid hawliau

Yn absenoldeb porwr arweiniol, corff cyfansoddedig neu bwynt cyswllt eglur arall, ni ellir dod â deiliaid hawliau ynghyd i ddatblygu cynllun rheoli cydweithredol a llwyddo i lofnodi cytundeb CAA.

- **Cydweithio**

I gyfranogi o fewn CAA, mae angen cyfranogiad porwyr gweithredol a chydweithrediad porwyr anweithredol sydd â hawliau cofrestredig. O dan ddarpariaethau Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965, roedd angen i gominwyr gofrestru eu hawliau pori o fewn y sir ble'r oeddent yn preswylio. Nid oedd cynnal cofrestr weithredol yn ofynnol, felly fe wnaeth llawer o ddeiliaid hawliau roi'r gorau i arfer eu hawliau, neu gwerthwyd y ffermydd a chafodd yr hawliau eu hailddosbarthu, gan arwain at y sefyllfa bresennol lle bydd nifer y deiliaid hawliau anweithredol yn aml yn fwy na nifer y porwyr gweithredol. Mae porwyr gweithredol wedi ystyried fod y deiliaid hawliau anweithredol hyn yn peryglu cyfranogiad o fewn unrhyw CAA.

- **Tybiaeth**

Mae canfyddiad fod CAA yn llesteirio arferion traddodiadol stiwardiaeth ar diroedd comin ac y gallant rwystro gallu porwyr i ymateb yn gyflym i angen marchnadoedd am dda byw. Mae llawer o borwyr hefyd yn credu nad oes gan sefydliadau statudol ddealltwriaeth o reolaeth dydd i ddydd tiroedd comin na'r gallu i ddehongli effeithiau polisi Amaeth-amgylcheddol ar unigolion a chymdeithasau porwyr.

Mae ychydig o gamddealltwriaeth hefyd ynghylch CAA, sydd wedi datblygu dros gyfres o gynlluniau amrywiol, a gallai hyn atal cyfranogiad. Yn neilltuol, mae natur esblygol y CDG yn golygu fod rhaid i'r llywodraeth ymateb trwy ei threfniadau ei hun i fynd i'r afael â heriau newydd sy'n wynebu'r Undeb Ewropeaidd. Mae cyflymder newidiadau mewn cynlluniau CAA yn creu ansicrwydd. Mae enghreifftiau o hyn, mewn perthynas â CAA Glastir, yn cynnwys pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o golli hawliau pori, gostyngiad yng ngwerth y daliad ac annog deiliaid hawliau pori anweithredol i arfer eu hawliau.

- **Incwm**

O fewn CP, mae pryderon ynghylch sut ddylid dosbarthu symiau arian CAA rhwng porwyr gweithredol a phorwyr anweithredol. Ofnid y byddai dosbarthu'r arian yn achosi gwrthdaro lleol, neu'n ei waethygu.

- **Cymhlethdodau a risg**

Mae CAA blaenorol wedi'u harwain gan gyfarwyddeb, ac felly, o ran eu natur, maent yn anodd eu rheoli mewn amgylchedd cydweithredol (Sort 2000). Yn yr un modd, gall methiant i gyflawni gofynion cytundebol y cynllun, neu dorri Codau Ymarfer Amaethyddol Da, arwain at gosbau trawsgydymffurfio. Mae nifer o drefniadau gwahanol wedi'u datblygu i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau lleol, yn amrywio o dalu porwyr gweithredol sydd â da byw yn

unig, i dalu porwyr anweithredol i beidio arfer eu hawliau a bancio'r arian i'w ail-fuddsoddi yn y comin pan fydd angen hynny.

**3.5 Dull gweithredu gwahanol**

Mewn ymateb i'r anawsterau hyn o ran cyflawni cytundebau CAA, penderfynodd Elin Jones y Swyddog Materion Gwledig y gellid gwneud pethau'n wahanol yn achos ETC Glastir trwy ddefnyddio GGLl. Gwahoddwyd 18 Grŵp Gweithredu Lleol Cymru gan Adran Materion Gwledig LlC i gyfranogi mewn rhaglen Swyddogion Datblygu Tir Comin ym Medi 2010.

Cyflwynwyd ceisiadau am gymorth grantiau ym mis Hydref 2010 gan y tri GGLl (Menter Môn, Cadwyn Clwyd, a PLANED) i gael cyllid gan LlC trwy Fesur Cymorth Technegol Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013. Cyfanswm yr arian oedd £2,043,411 ar gyfer 2011 – 2013 wedi'i rannu'n gyfartal rhwng y 3 GGLl. Diben yr arian oedd cyflogi 18 Swyddog Datblygu Tiroedd Comin, yn cynnwys 3 Goruchwyliwr Swyddogion Datblygu Tir Comin, i wasanaethu holl Siroedd Cymru. Rhan allweddol o'r cais oedd yr angen i sefydlu CP cyfansoddedig i alluogi mynediad i CAA Glastir, ac roedd gan y GGLl yr amcan cytûn canlynol:

'*Darparu cyfle i'r holl diroedd comin fod yn gymwys i gymryd rhan yn Elfen Tir Comin Glastir.'* (PLANED 2010)

Llwyddodd y tri GGLl i gael cytundeb dwy flynedd (Ionawr 2011 – Rhagfyr 2012) i ddarparu CAA Glastir ar ran Llywodraeth Cymru ar lefel Cymru gyfan.

Mae rhagor o wybodaeth am y tri GGLl ar gael yn Atodiad (ii).

**3.6 LEADER**

Mae egwyddorion LEADER yn sylfaenol i Echel 4 y Cynllun Datblygu Gwledig, sy'n annog pobl i gyfranogi yn y gwaith o wella a datblygu eu cymunedau gwledig. Yn benodol, nod Echel 4 yw creu dulliau blaengar newydd o gynnal datblygiad tymor hir yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2012). Dyma ddull o'r gwaelod i fyny, sy'n gweld gwerth mewn pobl leol fel prif ased ardaloedd gwledig. Bydd gwella gallu pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig yn eu galluogi i ganfod yr hyn sy'n fwyaf addas i'w hamgylchedd, eu traddodiadau gwaith a'u sgiliau. Nid yw'r dull gweithredu hwn wedi'i fabwysiadu'n eang mewn cyd-destun amaethyddol yng Nghymru, er bod PLANED a'i ragflaenydd SPARC wedi ceisio ymgorffori dull gweithredu LEADER o fewn amaethyddiaeth i ryw raddau (gweler Short a Powell, 2002).

Mae'r themâu LEADER canlynol yn neilltuol o bwysig:

- Meithrin gallu o fewn y gymuned leol
- Cydweithio â gweithredwyr lleol (pencampwyr cymunedol) a gwneuthurwyr penderfyniadau
- Annog cydweithio

### 3.7 Rôl y Swyddog Datblygu Tiroedd Comin

Cytunwyd ar ddisgrifiad o rôl y SDTC rhwng y 3 GGLI, Menter Môn, Cadwyn Clwyd a PLANED (Atodiad iii).

Mae'r sgiliau allweddol yr ystyrir eu bod yn ofynnol yn cynnwys;

- Gallu cyfathrebu gan ddefnyddio iaith nad yw'n or-dechnegol, â sgiliau cyflwyno a thrafod rhagorol
- Gallu cyfathrebu ag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, a gallu ennyn eu hyder, eu hymddiriedaeth
- Profiad o weithio yn y diwydiant amaeth a'r sector cig eidion/defaid yng Nghymru, ac arferion ffermio ar diroedd comin
- Profiad o annog a hwyluso cydweithio / gweithio mewn partneriaeth
- Bod yn barod i weithio oriau anghymdeithasol.

Rhwng Rhagfyr 2010 ac Ionawr 2011, penodwyd SDTC a Goruchwylwyr Prosiect SDTC, cyn Cam Datgan Diddordeb (DD) CAA Glastir, a agorodd ar 1 Chwefror 2011.

Trefnwyd y SDTC yn dri thîm wedi'u dosbarthu'n ddaearyddol ar draws Cymru; gorllewin, dwyrain a de.

*Darlun 1.0: Dosbarthiad rhanbarthau GGLI/SDTC*




**Ardaloedd Awdurdodau Unedol Cymru**

| | |
|---|---|
| 1 | Abertawe - Swansea |
| 2 | Blaenau Gwent - Blaenau Gwent |
| 3 | Bro Morgannwg - the Vale of Glamorgan |
| 4 | Caerffili - Caerphilly |
| 5 | Casnewydd - Newport |
| 6 | Castell-nedd Port Talbot - Neath Port Talbot |
| 7 | Conwy - Conwy |
| 8 | Merthyr Tudful - Merthyr Tydfil |
| 9 | Pen-y-bont ar Ogwr - Bridgend |
| 10 | Powys - Powys |
| 11 | Rhondda Cynon Taf - Rhondda Cynon Taf |
| 12 | Sir Ddinbych - Denbighshire |
| 13 | Sir Fynwy - Monmouthshire |
| 14 | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 15 | Sir y Fflint - Flintshire |
| 16 | Tor-faen - Torfaen |
| 17 | Wrecsam - Wrexham |
| 18 | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 19 | Gwynedd - Gwynedd |
| 20 | Caerdydd - Cardiff |
| 21 | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 22 | Sir Benfro - Pembrokeshire |

Mae tri Goruchwyliwr Prosiect SDTC y GGLI yn cydweithio’r trwy Grŵp Goruchwylwyr Prosiect SDTC, gan gydgysylltu gweithgareddau’r SDTC a rhannu adnoddau.

### 3.8 Dulliau trefniadol o weithio

Yn dilyn y broses recriwtio, cychwynnodd y SDTC ar eu gwaith ar 1 Chwefror pan agorwyd Cam Datgan Diddordeb (DD) Elfen Tir Comin Glastir.


Penodwyd **Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin** yn bennaf o'r cymunedau ble byddent yn gweithio.  Roedd y SDTC yn gweithio o gartref, felly roedd hyn yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd o fewn eu hardaloedd lleol. Caniataodd hyn i'r SDTC ymateb yn gyflym i ymholiadau, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.  Mae’r SDTC hefyd yn cydweithio a gallant gyfathrebu â’i gilydd dros y ffôn, ar Skype™ ac mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb misol yn rhanbarthol.

Nid oedd y rôl SDTC yn seiliedig ar dargedau, felly ni ystyrid fod y SDTC yn gwerthu cynllun ar ran LlC, ond yn hytrach na hynny, fe wnaethant ddefnyddio egwyddorion LEADER o ddatblygu gallu, cydweithredu a gweithio gyda gweithredwyr lleol.

Mae'r **Goruchwylwyr Prosiect SDTC** yn cefnogi tîm o bump SDTC a benodwyd gan bob un o'r tri Grŵp Gweithredu Lleol. Rôl Goruchwylwyr y Prosiect yw cydgysylltu gweithgarwch y tîm, rhannu arferion da a phrofiad, a gweithredu fel pwynt cyswllt allweddol ar gyfer ymholiadau gweithredol i LlC. Bydd y Goruchwylwyr Prosiect yn trafod materion gweithredol yn wythnosol trwy gyfrwng Skype™ ac yn cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd. Mae rheolwr o'r Grŵp Gweithredu Lleol yn cefnogi pob Goruchwyliwr Prosiect.

Cynhelir cyfarfodydd **'Pwyllo ac Adolygu'** chwarterol rhwng Cangen Rheolaeth Tir Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a Goruchwylwyr SDTC. Diben y cyfarfodydd hyn yw cyfnewid gwybodaeth ar gynnydd tuag at gyflawni ETC Glastir, trafod heriau canfyddadwy ac ystyried argymhellion lle bydd hynny'n briodol. Mae cyfle hefyd i LlC ddiweddaru'r GGLl ar ETC Glastir a materion eraill yn ymwneud â Glastir. Cychwynnodd y cyfarfodydd 'Pwyllo ac Adolygu' gyda LlC yn Ionawr 2012, mewn ymateb i'r angen i gynnal trafodaeth wyneb yn wyneb rheolaidd. Cyn 2012, cynhaliwyd cyfarfodydd yn ôl y galw gyda LlC mewn ymateb i anghenion y cynllun a chwestiynau a godwyd gan CP wrth i ETC Glastir gael ei gyflwyno.

*Darlun 2.0 Cydberthnasau rhwng y 3 GGLl a LlC*



## 4.0 DOD Â GWEITHREDWYR LLEOL YNGHYD

### 4.1 Ymatebion i arolwg dros y ffôn

Fe wnaeth dau gynrychiolydd o'r tri GGLl wneud arolygon dros y ffôn rhwng 15 a 30 Medi 2012. Sicrhawyd nad oedd y SDTC yn cyfweld unrhyw Gymdeithas Pori y cawsant gyswllt blaenorol â hi. Cofnodwyd yr ymatebion yn uniongyrchol mewn holiadur a gynlluniwyd ymlaen llaw, oedd yn cynorthwyo cyfwelwyr i ofyn cwestiynau perthnasol yn seiliedig ar ymateb y cyfwelai, gan leihau'r posibilrwydd o wallau. Mae copi llawn o'r arolwg i'w weld yn Atodiad (iv).

Roedd yr arolwg yn cynnwys pum adran, pob un ohonynt yn canolbwyntio ar ran benodol o broses Glastir a rôl gysylltiedig y SDTC. Dyma'r adrannau:

i. Gwybodaeth gefndir – ffeithiau am y comin a'i reolaeth.
ii. Gweithgarwch ar y comin cyn-Glastir – gwybodaeth am weithgareddau cyn-Glastir a'r SDTC.
iii. Cyswllt cychwynnol â'r SDTC – manylion ynghylch cysylltiadau cychwynnol rhwng y SDTC dan sylw a'r CP.
iv. Gwerthuso rôl y SDTC – rhan ganolog yr ymchwil, ymchwilio i effaith y SDTC o ran cydgysylltu a hwyluso Cymdeithasau Porwyr wrth iddynt ystyried ac ymuno â Glastir.
v. Asesiad cyffredinol o effaith y SDTC - asesiad cyffredinol o'r SDTC mewn perthynas â gweithredu ETC Glastir.

Cynhaliwyd cyfanswm o 142 cyfweliad llawn, allan o 319 Cymdeithas Porwyr posib, y gwnaeth y tri SDTC geisio cysylltu â hwy. Fwy na thebyg, mae 319 yn oramcangyfrif o nifer y CP, oherwydd gallai pob un fod wedi dychwelyd dan enw gwahanol ar ôl datgan diddordeb yn flaenorol. Ni wyddys union nifer y tiroedd comin sydd â CP, yn awr nac yn y dyfodol. Y rheswm mwyaf tebygol dros hyn yw eu bod wedi ailffurfio naill ai fel un grŵp mwy neu nifer o CP llai ar ôl iddynt weld gofynion ETC Glastir. Fe wnaeth y GGLl gofrestru pob un o'r rhain fel ymholiad newydd. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno nifer a chyfran y cyfweliadau a gynhaliwyd ar sail ardaloedd GGLl.

*Tabl 1.0 Dadansoddiad o ymatebion i'r arolwg dros y ffôn*

| Rhanbarth GGLl | Nifer y Cyfweliadau | Canran | Cyfanswm y sampl | Canran cyfanswm y sampl |
|---|---|---|---|---|
| PLANED | 54 | 38.0% | 81 | 66.7% |
| Cadwyn Clwyd | 38 | 26.8% | 127 | 29.8% |
| Menter Môn | 50 | 35.2% | 111 | 45.1% |
| **Cyfanswm** | 142 | 100.0% | 319 | 44.5% |

**4.2 Lleoliad Cymdeithasau Porwyr (CP)**
Mae’r tabl canlynol yn dangos lleoliad Cymdeithasau Porwyr yn ôl Awdurdodau Lleol.

*Tabl 2.0 Lleoliad CP yn yr arolwg dros y ffôn yn ôl Awdurdod Lleol*


| **Awdurdod Lleol** | **Amledd** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Gwynedd | 34 | 23.9% |
| Cyngor Sir Powys | 29 | 20.3% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 14 | 9.8% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 12 | 8.4% |
| Cyngor Sir Penfro | 12 | 8.4% |
| Dinas a Sir Abertawe | 7 | 4.9% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 6 | 4.2% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6 | 4.2% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 4 | 2.8% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 3 | 2.1% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 3 | 2.1% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 3 | 2.1% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 3 | 2.1% |
| Cyngor Sir Fynwy | 2 | 1.4% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 2 | 1.4% |
| Cyngor Caerdydd | 1 | 0.7% |
| Cyngor Sir y Fflint | 1 | 0.7% |
| **Cyfanswm** | **142** | **100.0%** |

Roedd awdurdodau lleol Gwynedd a Phowys yn cyfrif am tua hanner yr ymatebion, â 23.9 a 20.3% yn ôl eu trefn. Dilynwyd yr uchod gan Siroedd Caerfyrddin, Conwy a Phenfro, â 9.8, 8.4 a 8.4% yn ôl eu trefn. Roedd gan weddill yr ardaloedd llai na 5% yr un. Ni chafwyd ymatebion gan CP yn yr ardaloedd Awdurdodau Lleol canlynol:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Fe welir isod nifer a chanran y cyfweliadau a gynhaliwyd gan y GGLl. Gall y nifer llai o ardal Cadwyn Clwyd fod yn ffug, oherwydd roeddent yn credu fod nifer o'u cysylltiadau wedi dychwelyd y flwyddyn flaenorol ag enw newydd ar ôl dod i wybod am ofynion y cynllun yn 2011 trwy gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb.

*Figure 3.0 Interviews completed by LAG*




Roedd rhan o’r gwaith o ddod â gweithredwyr lleol ynghyd hefyd yn golygu canfod beth oedd dynodiadau presennol y comin, ac a oedd angen cysylltu â CCGC neu grwpiau diddordeb arbennig eraill. Fe wnaeth canfod presenoldeb dynodiadau tir penodol ar dir comin amlygu’r ffaith nad oedd gan dros un rhan o dair ohonynt (35.9%) unrhyw ddynodiadau o gwbl. Y dynodiad mwyaf cyffredin oedd Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) a Pharc Cenedlaethol oedd yr ail fwyaf cyffredin(28.9%). Mae tabl 3.0 yn dangos y math o ddynodiad tir oedd yn bresennol. Gallai mwy nag un dynodiad fod yn bresennol o fewn un ardal – felly mae cyfansymiau’r canrannau yn fwy na 100%.

*Tabl 3.0 Presenoldeb dynodiadau tir ymhlith tiroedd comin yr arolwg ffôn CP*

| **Dynodiad Tir** | **% y tiroedd comin** (n=142) caniatawyd sawl dewis | **Nifer y Tiroedd Comin** |
|---|---|---|
| **SSSI** | 48.6% | 69 |
| **Parc Cenedlaethol** | 28.9% | 41 |
| **ACA** | 4.2% | 6 |
| **HC** | 11.3% | 16 |
| **AGA** | 0.0% | 0 |
| **Dynodiad arall** | 1.4% | 2 |
| **Dim dynodiad** | **35.9%** | **51** |

Felly, yn achos hanner y tiroedd comin oedd yn ystyried ETC Glastir, buasai'n rhaid i CCGC hefyd fod yn rhan o baratoadau'r cytundeb. Fe wnaeth trafodaethau â'r SDTC a'r budd-ddeiliaid ddangos nad oedd llawer o'r CP yn ymwybodol o'r dynodiad SSSI. Byddai'n rhaid cynnwys CADW yn achos 16 comin neu ychydig dros 10% ohonynt. Roedd amrywiad rhwng y tair ardal GGLl;

*Tabl 4.0 Dim dynodiad ar diroedd comin yn ôl ardaloedd GGLl*

| Dim Dynodiad ar Dir Comin | Rhanbarthau GGLl: PLANED | Rhanbarthau GGLl: Cadwyn Clwyd | Rhanbarthau GGLl: Menter Môn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Dim Dynodiad Tir yn Bresennol ar y Comin** | 29 | 13 | 9 | 51 |
| **% Heb Ddynodiad** | 53.7% | 34.2% | 18.0% | |
| **Cyfanswm y Cyfweliadau a Gynhaliwyd** | 54 | 38 | 50 | 142 |
| **% o'r Cyfanswm** | 100% | 100% | 100% | |


Fe wnaeth dros hanner sampl PLANED nodi nad oedd unrhyw ddynodiad tir ar y tiroedd comin a gâi eu hystyried ar gyfer Glastir. Dyma'r nifer uchaf o blith y tri GGLl ac mae'n adlewyrchu natur yr ardal. Menter Môn sydd â'r nifer isaf o diroedd comin heb unrhyw ddynodiadau, 9 allan o'r 50 a gyfwelwyd.

### 4.3 Amseru'r cyswllt cychwynnol a gweithgarwch ETC cyn-Glastir

Gofynnwyd i'r holl gyfweleion pryd y gwnaeth eu CP fynegi diddordeb yn ETC Glastir am y tro cyntaf, naill ai 2011 neu 2012. O'r 142 a holwyd, roedd 133 (94%) wedi cysylltu yn 2011, a dim ond 9 wedi cysylltu yn 2012. Yn amlwg, roedd diddordeb cychwynnol cryf i ganfod rhagor o wybodaeth am ETC Glastir.


Holwyd porwyr hefyd am lefel y gweithgarwch cyn ystyried ETC Glastir. Y cwestiwn cyntaf a holwyd oedd a oedd unrhyw reolaeth weithredol yn digwydd ar y comin cyn ETC Glastir, ac os felly, pa fath o weithgarwch. Cyflwynir canlyniadau hyn yn Narlun 4.0 ac mae'n dangos fod ychydig dros 50% o'r tiroedd comin yn cael eu rheoli'n weithredol.

*Darlun 4.0 Presenoldeb dulliau rheoli cyn ystyried ETC Glastir*



Mae’r siart canlynol yn ystyried amledd a math y rheoli ymhlith y 72 ymatebwr a nododd fod gweithgarwch rheoli ar y comin.  Roedd rhwydd hynt i’r ymatebwyr nodi unrhyw un o’r gweithgareddau a restrwyd.


*Figure 5.0 Type and frequency of management activity on the common*




Roedd pori a rheoli stoc yn digwydd ym mhob un ond un o’r lleoliadau lle’r oedd rheoli gweithredol yn digwydd. Rheoli rhedyn oedd y nesaf o blith y dulliau rheoli mwyaf cyffredin, â 25 allan o'r 72 comin (34.7%) a llosgi â 20 ymateb (27.8%).

Roedd lefel y trefnu yn y tiroedd comin o'r pwys mwyaf i'r SDTC, a gofynnwyd i'r porwyr nodi a oeddent yn cynnal cyfarfodydd a beth oedd natur y cyfarfodydd hyn, ac am faint roeddent wedi gwneud hynny cyn ETC Glastir.

*Darlun 6.0 A oedd porwyr wedi cwrdd â'i gilydd cyn ETC Glastir*




Dengys Darlun 6.0 fod dros hanner y porwyr (54%) yn arfer cynnal cyfarfodydd, ond nid oedd 43% yn gwneud hynny. O blith y rhai oedd yn cwrdd, roedd 64.9% yn cwrdd mewn CP ffurfiol. Roedd mwyafrif helaeth y CP hyn wedi'u sefydlu cyn 2000 (46 allan o 50), sy'n awgrymu eu bod wedi hen ennill eu plwyf. O blith y 4 arall, roedd 3 wedi'u sefydlu rhwng 2001 a 2004. Roedd ychydig o amrywiad rhwng y tair ardal GGLl, fel mae'r tabl isod yn ei ddynodi.


*Tabl 5.0 Cyfarfodydd porwyr yn ôl ardaloedd GGLl*

| | Rhanbarthau GGLl | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **A Oedd Porwyr yn Cwrdd?** | **PLANED** | **Cadwyn Clwyd** | **Menter Môn** | |
| **Oeddent** | 39 | 26 | 12 | 77 |
| **% y Porwyr oedd yn Cwrdd** | 72.2% | 68.4% | 24.0% | |
| **Nac oeddent** | 13 | 12 | 36 | 61 |
| **% y Porwyr Nad Oedd yn Cwrdd** | 24.1% | 31.6% | 72.0% | |
| **Ddim yn Gwybod** | 2 | 0 | 2 | 4 |
| **% Ddim yn Gwybod** | 3.7% | 0.0% | 4.0% | |
| **Cyfanswm y Cyfweliadau a Gynhaliwyd** | 54 | 38 | 50 | 142 |
| **% o'r Cyfanswm** | 100% | 100% | 100% | |

Roedd gan y CP yn ardaloedd PLANED a Chadwyn Clwyd lefelau tebyg o gyfarfodydd. Fe wnaeth y SDTC a'r goruchwyliwr gadarnhau fod y CP yn llawer llai datblygedig yn ardal Menter Môn ac roedd y porwyr mewn cysylltiad â'i gilydd at ddibenion hel defaid yn unig, ond roedd y cyswllt wedi'i hen sefydlu ac yn gweithio'n dda.

Holwyd y porwyr hefyd am unrhyw gyswllt blaenorol â'r CAA yng Nghymru, naill ai a oeddent wedi ystyried ymuno neu wedi ymrwymo i gytundeb CAA. Os oedd y tir wedi bod mewn CAA blaenorol, gofynnwyd am fanylion y cynllun. Roedd bron iawn un rhan o dair naill ai wedi ystyried llunio cytundeb CAA neu wedi ymrwymo i gytundeb o'r fath.  Gan ystyried nifer isel y CAA ar y tiroedd comin cyn CAA Glastir, roedd y nifer uchel oedd yn ystyried ymuno â chynllun yn uwch na'r hyn y gellid bod wedi'i ragweld.

*Darlun 7.0 A wnaeth y porwyr ymuno â neu ystyried Cynllun Amaeth-Amgylcheddol (CAA) blaenorol*




Fe wnaeth yr arolwg hefyd amlygu rhai gwahaniaethau rhwng ardaloedd y GGLl.

*Tabl 6.0 Ymuno â neu Ystyried Ymuno â CAA arall yn ôl ardal GGLl*


| Wedi ymuno â/Ystyried ymuno â Chynlluniau Amaeth-amgylcheddol yn Flaenorol? | Rhanbarthau GGLl: PLANED | Rhanbarthau GGLl: Cadwyn Clwyd | Rhanbarthau GGLl: Menter Môn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Do** | 24 | 6 | 16 | 46 |
| **% wedi Ymuno/Ystyried ymuno** | 44.4% | 15.7% | 32.0% | 100.0% |
| **Naddo** | 29 | 32 | 31 | 92 |
| **% heb Ymuno/Ystyried ymuno** | 53.7% | 84.2% | 62.0% | 100.0% |
| **Ddim yn Gwybod** | 1 | 0 | 3 | 4 |
| **% Ddim yn Gwybod** | 1.9% | 0.0% | 6.0% | 100.0% |
| **Cyfanswm y Cyfweliadau a Gynhaliwyd** | 54 | 38 | 50 | 142 |
| **% o'r Cyfanswm** | 100% | 100% | 100% | 100.0% |

Cadwyn Clwyd oedd â'r nifer isaf o CP oedd wedi ystyried cynlluniau amaeth-amgylcheddol (16%) o'i gymharu â 44% yn ardal PLANED.  Efallai bod hyn yn adlewyrchu presenoldeb cynlluniau Amaeth-amgylcheddol a rheoli tir cenedlaethol blaenllaw, er enghraifft roedd Comin Cefn Bryn ym Mhenrhyn

Gŵyr yn rhan o Dir Cymen ac yna Tir Gofal cyn datgan diddordeb yn ETC Glastir.


O blith y 46 oedd wedi bod yn rhan o CAA, Tir Gofal (20) oedd y mwyaf poblogaidd, ac roedd 16 CP wedi ystyried ymuno â'r cynllun hwn.

*Darlun 8.0 Cytundebau CAA a luniwyd neu a ystyriwyd*





Ffactor arall sy'n dod â gweithredwyr lleol ynghyd yw lefel presennol y cysylltiadau â sefydliadau y tu allan i'r cymdeithasau porwyr. Gallai fod yn grŵp diddordeb arall (megis tirfeddiannwr, Parc Cenedlaethol neu asiantaeth cadwraeth, clwb mynydda neu sefydliadau treftadaeth). Fe wnaeth y porwyr ddynodi a oedd unrhyw grwpiau diddordeb yn gysylltiedig â'u cymdeithasau neu â rheolaeth y comin, ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Narlun 9.0.

*Darlun 9.0 Grwpiau diddordeb eraill yn gysylltiedig â Chymdeithasau Pori neu reolaeth?*




Lle’r oedd grwpiau diddordeb yn gysylltiedig, fel y gwelwyd mewn 47 achos, holwyd i ba raddau yr oeddent yn cynnig cefnogaeth tuag at unrhyw gais i ymuno â Glastir. Gwelir y canlyniadau yn Narlun 10.0. Roedd y nifer fwyaf yn y categori 'nid yn gefnogol nac yn anghefnogol’ (38%) ond roedd dros hanner yn gefnogol.

*Figure 10.0 Extent of support offered by any engaged interest groups*





I gloi'r adran hon, roedd lefel amrywiol o drefnu, gweithgareddau rheoli a chyswllt â sefydliadau nad oeddent yn gymdeithasau porwyr. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae lefel y gweithgarwch ar y tiroedd comin yn y sampl hwn yn adlewyrchu’r heriau a amlinellwyd yn yr adran flaenorol.

## 4.4 Cyswllt cychwynnol â’r SDTC

Mae’r adran hon yn ystyried rhyngweithio cychwynnol â’r SDTC a’r cymhellion oedd yn gysylltiedig â phroses gwneud cais Glastir a chynnydd y broses. Gofynnwyd i’r CP sut y daethant yn ymwybodol o ETC Glastir yn y lle cyntaf a’u prif gymhelliant dros fynegi diddordeb yn y cynllun.

*Darlun 11.0 Lle clywodd yr ymatebwr gyntaf am Glastir*





‘Gwlad’ oedd y ffynhonnell gwybodaeth y cyfeiriwyd ato amlaf, a dywedodd dros un rhan o dair o'r ymatebwyr mai yn y cylchgrawn hwn y cawsant wybod gyntaf am ETC Glastir. Gohebiaeth gan y SDTC oedd yr ail fwyaf cyffredin (25%) ac roedd gwybodaeth lafar yn cyfrif am un rhan o bump o’r ymatebion, ychydig yn fwy na’r wasga amaethyddol ac undebau amaethwyr. Nid oedd unrhyw amrywiad go iawn rhwng y GGLl, ac eithrio bod gwybodaeth lafar yr un mor bwysig â 'Gwlad' yn rhanbarth Menter Môn, sy'n tanlinellu pwysigrwydd arwerthiannau da byw a mannau cyfarfod eraill. Fe ymddengys fod y wasg amaethyddol a lleol wedi bod yn fwyaf effeithiol o fewn rhanbarth PLANED.

Yr ystyriaeth ariannol oedd y prif reswm bod 119 o'r 142 CP a holwyd wedi ystyried ETC Glastir (84%). Yr ail fwyaf cyffredin o'r ymatebion oedd annog rheolaeth weithredol o'r comin, er bod hyn yn cyfrif am lai na 10% o gyfanswm yr ymatebion.

Cam cyntaf y cyswllt cychwynnol oedd Datganiad o Ddiddordeb gan y CP. Gofynnwyd i'r CP ddatgan pa wybodaeth a gawsant gan y SDTC ac a allent ddewis o blith rhestr a ddarllenwyd iddynt. Gwelir yr ymatebion yn Narlun 12.0. O'r 142 CP a arolygwyd, fe wnaeth 139 (98%) fynegi diddordeb ar ôl cael gwybodaeth gan LIC neu'r GGLl trwy law'r SDTC penodol.

*Darlun 12.0 Math o wybodaeth ysgrifenedig a roddwyd i'r CP gan y SDTC*




Dogfennau LIC oedd y ffynhonnell fwyaf cyffredin o wybodaeth am ETC Glastir, yn cyfrif am 91.5% o'r ymatebwyr. Cyfeiriwyd at ddogfennau wedi'u cynhyrchu naill ai gan y SDTC neu'r GGLl gan 109 atebydd (76.8%) a gwybodaeth ar ffurfiau eraill gan 22 atebydd (15.5%).

Yn ystod y cam cyntaf hwn, mae'n debyg y cynhelir cyfres o weithgareddau, a buasent yn cynnwys y SDTC. Holwyd pob CP am gyfraniad y SDTC yn ystod y cam hwn. Dyma'r cwestiynau:

- A gynhaliodd eich CP gyfarfod i drafod cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb?
    - Os 'do', a oedd y SDTC yn rhan o'r cyfarfod hwnnw?
- A drafodwyd y Cod Tir Comin ag aelodau'r CP?
- A wnaeth eich CP gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb?
    - Os 'do', a wnaeth hyn arwain at gyflwyno cais llawn?

*Tabl 7.0 Dadansoddiad o weithgareddau SDTC gyda'r CP yn ystod y cam DD*

| Cwestiwn / Ymateb | A gynhaliwyd cyfarfod i drafod DD? (n=142) | A wnaeth y SDTC gymryd rhan yn y cyfarfod? (n=131) | A drafodwyd y 'Cod Tir Comin'? (n=142) | A wnaethoch chi gyflwyno DD? (n=142) | A wnaeth hyn arwain at gais llawn? (n=137) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Do** | 92.3% (131) | 93.1% (122) | 87.3% (124) | 96.5% (137) | 66.4% (91) |
| **Na** | 7.7% (11) | 6.1% (8) | 8.5% (12) | 2.8% (4) | 27.7% (38) |
| **Ddim yn Gwybod** | 0% (0) | 0.8% (1) | 4.2% (6) | 0.7% (1) | 5.8% (8) |
| **Cyfanswm** | 100% (142) | 100% (131) | 100% (142) | 100% (142) | 100% (137) |

Mae'n amlwg fod y SDTC yn weithgar iawn yn ystod y cam Datgan Diddordeb. Fe wnaeth y mwyafrif helaeth gynnal cyfarfod (131 CP o blith 142) ac roedd y SDTC yn bresennol yn y cyfarfod hwn mewn 122 o achosion. Yn achos y cyfarfod hwn, trafodwyd y Cod Tir Comin yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd. Unwaith eto, fe wnaeth hyn arwain at gyflwyno Datganiad o ddiddordeb ym mwyafrif yr achosion. Yn ystod y cam hwn o'r prosiect, aeth dwy ran o dair o'r CP oedd wedi cyflwyno DD (137) ymlaen i gyflwyno cais llawn. Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen yn achos mwyafrif y CP o fewn proses Glastir ac mae'n amlwg fod presenoldeb y SDTC wedi cynorthwyo.

Fodd bynnag, fe wnaeth rhai CP dynnu'n ôl o'r broses, a gofynnwyd iddynt am y rhesymau dros hyn. Cafodd y rhain eu codio ac fe'u gwelir yn y tabl isod.

*Tabl 8.0 - Beth oedd eich rhesymau dros dynnu'n ôl o broses Glastir?*

| Rheswm | Nifer | % |
|---|---|---|
| Rhy gymhleth a materion cyfraddau cadw stoc | 10 | 40 |
| Methu dod i gytundeb ymhlith ein gilydd | 7 | 28 |
| Diffyg arian ac ofni cosbau | 4 | 16 |
| Ddim yn addas i ymuno â Glastir | 2 | 8 |
| Ddim yn cefnogi Glastir | 2 | 8 |
| **Cyfanswm** | **25** | **100** |

Y prif reswm dros dynnu'n ôl oedd cymhlethdod y cymhleth a'r effaith y byddai wedi'i gael ar gyfraddau cadw stoc. Dywedodd un CP '*[roeddem] yn ofni'r cosbau yn sgil materion tanbori felly roeddem yn rhy bryderus i ymuno â'r cynllun'.* Dilynwyd hyn gan fethiant i gytuno'n fewnol i fwrw ymlaen ag ETC Glastir. Gellir datrys y ddau fater hyn yn y dyfodol, ond yn amlwg, nid oedd ymuno ag ETC Glastir yn fater rhwydd i bob CP, hyd yn oed â chymorth y SDTC. Fe wnaeth nifer hefyd ddynodi nad oedd y SDTC ar fai am iddynt dynnu'n ôl Glastir, ac roeddent yn gweld gwerth sylweddol ynddynt. Yn ôl un CP '*Mae'r SDTC yn bwysig ond ni wnaiff cynllun Glastir weithio'.*

Mae'r cynnydd trwy'r system a nifer yr achosion o dynnu'n ôl yn amrywio rhwng y GGLl, fel y gwelir yn nhabl 9.0.

*Tabl 9.0 Camau ym mhroses ETC Glastir yn ôl GGLl*

| Camau Cais Glastir | Rhanbarthau GGLl | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | PLANED | Cadwyn Clwyd | Menter Môn | |
| **Diddordeb yn Glastir wedi'i dynnu'n ôl** | 9 | 14 | 4 | 27 |
| **Datganiad o Ddiddordeb a Gyflwynwyd** | 22 | 0 | 0 | 22 |
| **Yn datblygu cais llawn** | 8 | 0 | 1 | 9 |
| **Cyflwynwyd cais llawn** | 5 | 7 | 5 | 17 |
| **Yn meddu ar gytundeb llawn Glastir** | 10 | 17 | 40 | 67 |
| **Cyfanswm y Cyfweliadau a Gynhaliwyd** | 54 | 38 | 50 | 142 |
| **% o'r Cyfanswm** | 100% | 100% | 100% | 100.0% |

Mae'r canlyniadau Traws-Dablu a gymerwyd o'r cwestiwn yn ymwneud â chamau'r cymdeithasau yn y broses ymgeisio yn cynnig rhai canlyniadau diddorol. Efallai mai'r dull gorau o egluro hyn yw'r gwahaniaethau yn y tiroedd comin cymwys rhwng y tri rhanbarth GGLl. Cadwyn Clwyd oedd â'r nifer uchaf o diroedd comin cymwys yng Nghymru (256) ac felly roedd ganddo'r debygoliaeth rifyddol uchaf o dynnu'n ôl, roedd gan PLANED 200 o diroedd cymwys, ac roedd gan Menter Môn y nifer isaf, sef 159. Yn yr un modd, gan nad oedd CP yn bodoli ym mwyafrif grwpiau Menter Môn, cawsant eu sefydlu'n bennaf at ddibenion Glastir â'r bwriad o ymuno â'r cynllun, a gallai cyflymder eu cynnydd trwy'r broses fod wedi bod yn gyflymach oherwydd hynny.

O fewn Menter Môn, mae'r ffigwr amlwg yn ymwneud â'r rhai sydd â chytundeb Glastir llawn, 80% o'r CP o fewn y GGLl hwn, sydd hefyd yn cyfrif am bron iawn 60% o bob ymatebwr. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn y cam DD, a dim ond un oedd yn y broses o ddatblygu cais llawn.

O fewn rhanbarth PLANED, mae nifer amlwg o gymdeithasau sydd naill ai yn y broses o ddatblygu cais llawn, neu wedi cyflwyno DD. Mae'r rhain yn cyfrif am 55% o ganlyniadau rhanbarth PLANED.

Mae'r nifer uchaf sydd wedi atal eu diddordeb yn Glastir yn rhanbarth Cadwyn Clwyd. Mae ymatebion o'r fath, o'r rhanbarth hwn, yn cyfrif am bron iawn 52% o bob achos o dynnu'n ôl a 37% o fewn rhanbarth Cadwyn Clwyd. Efallai fod y rhain wedi gorfod aildrefnu eu trefniadau rheoli ac efallai eu bod wedi cysylltu â'r GGLl wedi hynny ynghylch datblygu cytundeb.

Mae'r adran nesaf yn ystyried agweddau meithrin gallu'r broses ar ôl i'r DD gael ei gyflwyno a'i dderbyn.

## 5 MEITHRIN GALLU


### 5.1 Datblygu'r cytundeb

Yn achos y 91 CP a gyflwynodd gais llawn, holwyd cwestiynau ychwanegol ynghylch cyfranogiad y SDTC a chyfarfodydd dilynol. Dyma'r cwestiynau:

- A wnaeth eich Swyddog Tir Comin helpu i ymgynghori â'r holl bartïon perthnasol megis unigolion nad ydynt yn borwyr, tirfeddianwyr, CCGC, Parciau Cenedlaethol ac ati. (Tabl 3.0)
- A wnaeth eich SDTC gynorthwyo â:
  - Thrafodaethau a llofnodi cyfansoddiad a chytundeb (newydd) i aelodau
  - Dod o hyd i arbenigwr cyfreithiol i ddilysu'r fersiwn terfynol
  - Talu'r ffioedd cyfreithiol a oedd yn gysylltiedig â'r cyfansoddiad a'r cytundeb i aelodau
  - Llunio cytundeb mewnol terfynol i gefnogi'r cais i Glastir
  - Eich tywys drwy'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar gyfer y ffurflen gais
- A gafodd eich CP chi gyfarfod i drafod y cais llawn i ymuno â Glastir?
  - Os 'do', a gymerodd eich SDTC ran yn y cyfarfod hwnnw?
- A fu cais eich CP yn llwyddiannus?


Mae canlyniadau'r cwestiynau hyn yn y darluniau canlynol°:

*Darlun 13.0 A gynorthwyodd y SDTC â'r ymgynghoriad*




Yn amlwg, fe wnaeth y SDTC gyfranogi'n sylweddol yng ngwaith mwyafrif y CP wrth iddynt ddatblygu. Dengys y tablau canlynol eu bod wedi cynorthwyo ag ystod helaeth o dasgau, a gallai'r ymatebwyr ddewis y rhai oedd yn berthnasol i'w CP.

*Darlun 14.0 A gynorthwyodd y SDTC â thasgau amrywiol*





Un maes gweithgarwch allweddol oedd llofnodi cyfansoddiad newydd a thywys y CP trwy ofynion y cais. Mae'r ddau agwedd yn ymddangos yn rheolaidd yn y cwestiwn agored 'mewnbwn pwysicaf y SDTC' ar ddiwedd yr arolwg. Fe wnaeth y GGLl ragweld hyn ac fe wnaethant weithio gyda chwmni cyfreithwyr i baratoi 'templed cyfansoddiad', ac felly roedd llai o bwysau ar y CP. Fodd bynnag, roedd talu ffioedd cyfreithiol a chanfod arbenigwr cyfreithiol priodol, sef rhywun â gwybodaeth o diroedd comin, hefyd yn bwysig i rai CP. Fe wnaeth o leiaf 90 o'r CP a atebodd y cwestiwn hwn nodi fod y SDTC wedi cynorthwyo ag o leiaf un o'r meysydd hyn.

Fe wnaeth y SDTC hefyd gymryd rhan mewn 94% o gyfarfodydd y CP ble trafodwyd hyn. Yn y 90 achos hyn, dim ond 1 CP a ddywedodd fod y cais yn aflwyddiannus, roedd 20 CP yn disgwyl am benderfyniad ac roedd y 69 arall wedi llwyddo.

## 5.2 Ceisiadau llwyddiannus i ETC Glastir

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau ynghylch cyfranogiad y SDTC i'r 69 CP a gyflwynodd gais llwyddiannus.

*Darlun 15.0 Arweiniad a gafwyd gan y SDTC*





Yn ogystal â chynorthwyo i gyflwyno cais, roedd gan y SDTC ran sylweddol yn y ceisiadau hynny oedd yn llwyddiannus. Yn benodol, cafodd y CP gymorth gan y SDTC i ddeall y cytundeb a gynigwyd gan LIC i ymuno â'r cynllun. Ym mhob achos ond un, fe wnaeth y SDTC gynorthwyo â'r gwaith o ystyried y cytundeb a gwirio'r mapiau. Mae lefel cyfraniad y SDTC yn gynhwysfawr iawn, ac ni wnaeth unrhyw un o'r 69 CP nodi na wnaeth y SDTC unrhyw gyfraniad.

*Tabl 10.0 Cyfranogiad SDTC yn ystod camau'r cytundeb*

| Cwestiwn / Ymateb | A gynhaliwyd cyfarfod i drafod cytundeb Glastir? (n=69) | A wnaeth y SDTC gymryd rhan yn y cyfarfod? (n=69) | A wnaeth y CP lofnodi cytundeb Glastir? (n=69) |
|---|---|---|---|
| **Do** | 97.1% (67) | 100% (69) | 98.6% (68) |
| **Na** | 2.9% (2) | 0% (0) | 0% (0) |
| **Ddim yn Gwybod** | 0% (0) | 0% (0) | |
| **Yn aros am ateb/ penderfyniad heb ei wneud** | | | 1.4% (1) |

Gofynnwyd i'r CP sydd wedi llofnodi cytundeb Glastir a oedd eu SDTC wedi'u cynorthwyo â thasgau penodol o fewn cytundeb ETC Glastir. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn y siart canlynol, ac unwaith yn rhagor, gallai'r ymatebwyr ddewis y rhai oedd yn berthnasol i'w CP hwy:

*Tasgau y gwnaeth y SDTC gynorthwyo â hwy*




Wedi llofnodi'r cytundeb, cynigodd y SDTC gymorth 'ôl-ofal' ynghylch meysydd megis ethol swyddogion a pharatoi tystiolaeth i'w archwilio. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod hyn yn cynorthwyo'r CP, ac mae'r broses o ddatblygu'r cytundeb wedi gwella gallu'r CP yn sylweddol. Yn wahanol i Loegr, nid wnaeth SDTC weithredu fel cadeirydd, ysgrifennydd na thrysorydd unrhyw CP.

### 5.3 Darpariaeth cefnogaeth y SDTC

Mae'n amlwg o'r tabl canlynol fod y CP yn gweld gwerth sylweddol yn y rôl hwylusydd a gynigid gan y SDTC, wedi'i ddilyn gan eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynllun ETC Glastir. Mewn ymateb i'r cwestiwn, 'Beth oedd mewnbwn pwysicaf y SDTC' cafwyd yr ymatebion canlynol:

Roedd tri grŵp sylweddol o atebion, gallu'r SDTC i hwyluso'r cyfarfodydd a threfnu'r porwyr (28%), arweiniad a gwybodaeth y SDTC mewn perthynas ag ETC Glastir (27%) ac ansawdd eu cyngor a'u mewnbwn diduedd i'r broses (20%). Oherwydd nifer y sylwadau, mae'n amlwg fod ychydig o orgyffwrdd rhwng y categorïau.

*Tabl 11.0 Pwysigrwydd mewnbwn SDTC*

| **Y mewnbwn pwysicaf oedd:** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Hwyluso a threfnu agweddau | 38 | 28 |
| Gwybodaeth o ETC Glastir ac arweiniad arno | 37 | 27 |
| Cyngor a mewnbwn diduedd | 27 | 20 |
| Argaeledd a chefnogaeth trwy gydol y broses | 13 | 9 |
| Amhrisiadwy ymhob agwedd | 10 | 7 |
| Darparu dolen gyswllt â LIC | 6 | 4 |
| Gwybodaeth o'r tiroedd comin a ffermio | 2 | 1 |
| Dim un/dim/ddim yn berthnasol | 5 | 4 |
| **Cyfanswm** | **138** | **100** |

Mae'r ffaith fod y SDTC ar gael trwy gydol y broses gyfan yn bwysig i rai CP, ac fe wnaeth rhai ohonynt gyfeirio'n benodol at y gallu i gynnig dolen at LIC. Cytunodd nifer â'r farn *'heb ymdrechion y SDTC, ni fuasai'r cais hwn wedi'i gychwyn hyd yn oed.'* Roedd eu brwdfrydedd a'u hagwedd hawdd mynd atynt yn nodweddion pwysig, yn ogystal â'u hyblygrwydd a'u parodrwydd i fynychu cyfarfodydd gyda'r hwyr ac ar benwythnosau.

Holwyd y CP a oedd unrhyw beth na allai'r SDTC ei wneud. Mae'n werth nodi mai dim ond 36 ymateb a gafwyd yma, ac ni ddywedodd 12 ohonynt ddim byd, felly dim ond 24 CP a ymatebodd.

*Tabl 12.0 - beth na allai'r SDTC gynnig*

| **Nid oedd y SDTC yn gallu cynnig** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Gwybodaeth dra-chywir | 11 | 31 |
| Gwybodaeth ar bwnc/agwedd penodol | 7 | 19 |
| Hyblygrwydd | 3 | 8 |
| Gwybodaeth leol | 2 | 6 |
| Cymorth yn y dyfodol | 1 | 3 |
| Dim byd, cynigwyd popeth yr oedd ei angen | 12 | 33 |
| **Cyfanswm** | **36** | **100** |

Dengys tabl 12.0 mai diffyg gwybodaeth dra-chywir oedd y diffyg pennaf, fwy na thebyg oherwydd nad oedd y wybodaeth ar gael gan LIC. Yng ngeiriau un CP *'atebion i gwestiynau nad oedd wedi'u datrys gan LIC'.* Awgrymai'r cyfweliadau â'r SDTC fod yr ymatebion hyn yn adlewyrchu'r prinder gwybodaeth yn ystod cam cyntaf cyflwyno ETC Glastir. Yn ystod y misoedd cyntaf hynny, roedd y cynllun i ryw raddau yn gallu addasu i gwestiynau a godwyd gan y SDTC, a gwnaed rhai newidiadau gan LIC. Mae'r nifer fechan o'r sylwadau eraill hyn yn bositif yn bennaf i rôl y SDTC, ond mae'n ein hatgoffa mai perthynas rhwng ffermwyr ac ymgynghorydd sydd yma, ac ar brydiau, ni chaiff hyn ei gyflawni, ond mae hynny'n brin yn achosion y SDTC. Roedd un CP yn bryderus ynghylch cyfnod 2 flynedd y swydd gan ddweud '*gan fod cytundeb y SDTC yn dod i ben, ni allai [ef/hi] gwarantu y gallai'r swyddog gynnig dilyniant ar gyfer holl bryderon y swyddog ddilyn ymlaen â holl bryderon y gymdeithas'.*

## 6.0 ADOLYGU A CHYDNABOD

### 6.1 Asesiad cyffredinol o effaith y SDTC a meysydd cyfranogi eraill

Fe wnaeth adran olaf yr arolwg ganiatáu i ymatebwyr werthuso ansawdd a gwerth y cymorth a gawsant gan y SDTC yn ystod y broses ymgeisio. Fe wnaeth hefyd eu galluogi i gynnig adborth, barn a sylwadau mwy cyffredinol nad oedd wedi'u trafod yn yr adrannau blaenorol.

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno canlyniadau cwestiynau yn holi am bwysigrwydd rolau penodol y SDTC mewn perthynas â'r CP.


*Tabl 13 Effaith gyffredinol y SDTC*

| | Ymateb | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rôl y SDTC** | **Pwysig iawn** | **Eithaf pwysig** | **Ddim mor bwysig â hynny** | **Ddim yn bwysig** | **Amherthnasol** | **Cyfanswm** |
| **Mewnbwn i ddatblygu cytundeb Glastir** | 90.1% | 7.7% | 0.0% | 1.1% | 1.1% | 100% |
| **Gwirio manylion y cais i Glastir** | 81.3% | 14.3% | 2.2% | 1.1% | 1.1% | 100% |
| **Ei wybodaeth mewn perthynas â'r cytundeb / cais i Glastir** | 76.1% | 12.7% | 2.1% | 1.4% | 7.7% | 100% |
| **Y bartneriaeth fewnol a ddatblygwyd ar gyfer y cytundeb / cais i Glastir** | 70.3% | 22.0% | 3.3% | 0.0% | 4.4% | 100% |

Mae'r canlyniadau yn cefnogi'n gryf y rôl bwysig oedd gan y SDTC wrth gyflwyno ETC Glastir a throi'r Datganiadau o Ddiddordeb yn gytundebau Glastir. Gofynnwyd i'r 91 CP a gyflwynodd gais llawn pa mor effeithlon oedd mewnbwn eu SDTC yn eu tyb hwy, a chyflwynir y canlyniadau yn y siart canlynol, Darlun 17.0.


Roedd bron iawn 90% o'r ymatebwyr yn credu fod eu SDTC yn 'effeithlon iawn' a 10% yn credu fod eu SDTC yn 'eithaf effeithlon'. Mae hyn yn golygu fod pob ac eithrio dau o'r CP, 89 allan o 91, wedi gosod effeithlonrwydd y SDTC yn y ddau gategori uchaf.

*Darlun 17.0 Effeithlonrwydd mewnbwn y SDTC*




Gofynnwyd i bob cyfwelai wneud asesiad cyffredinol o'u SDTC mewn perthynas ag effeithlonrwydd eu rôl o ran darparu cefnogaeth â phroses ymgeisio ETC Glastir. Gofynnwyd hyn i bob grŵp, ni waeth a oeddent wedi datgan diddordeb yn unig neu wedi mynd ymlaen i ymuno â'r cynllun ar ôl cyflwyno cais llawn. Cyflwynir canlyniadau'r asesiadau cyffredinol hyn yn y siart canlynol:

*Darlun 18.0 Barn gyffredinol am y SDTC*




Dywedodd bron iawn 79% o'r cyfweleion fod eu SDTC yn 'ardderchog' a dywedodd 20% fod eu SDTC yn 'dda'. Mae'r ddwy farn gyffredinol yn cyfrif am bron iawn 99% o'r ymatebion, sy'n awgrymu fod gan bron iawn bob cyfwelai ddelwedd bositif iawn o'r SDTC.

Adlewyrchir y farn bositif hon ymhellach lle gofynnwyd i gyfweleion a oedd eu SDTC wedi'u cynorthwyo â chyngor ar faterion ac eithrio rhai oedd yn gysylltiedig â Glastir. Er nad oedd y mwyafrif (62%) wedi cael cyngor o'r fath, roedd chwarter yr ymatebwyr wedi cael (25%) - sy'n ganran sylweddol. Mae'r tabl isod yn dangos yr ymatebion hyn wedi'u codio.

*Tabl 14.0 Pa gyngor arall y mae'r SDTC wedi'i gynnig i'r CP*

| **Gwybodaeth ynghylch:** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Y cofrestri tiroedd comin | 8 | 25 |
| Hawliau tir comin a phorwyr anghyfreithlon | 7 | 22 |
| Materion eraill yn ymwneud â thir comin | 5 | 16 |
| Materion terfynau a mapio tir comin | 4 | 13 |
| Materion eraill Glastir | 3 | 9 |
| Cyswllt â swyddog CCGC | 2 | 6 |
| Mater arall nad yw'n gysylltiedig â thir comin | 3 | 9 |
| **Cyfanswm** | **32** | **100** |

Roedd llawer o'r cyngor hwn yn gysylltiedig â thiroedd comin, yn ymwneud â'r cofrestri neu faterion mapio. Yn amlwg, roedd y CP yn ddiolchgar iawn am y cymorth hwn, oherwydd nododd sawl un nad oeddent wedi llwyddo i gael y wybodaeth hon cyn hynny, na chael eu cysylltu â chyngor arbenigol o ffynonellau eraill.

"Cyngor diduedd, eglurhad clir a chymorth â rheolaeth/arweinyddiaeth yn y cyfarfodydd; heb hynny, ni fuasai'r broses ymgeisio hyd yn oed wedi'i chychwyn"

Yn gyffredinol, mae hyn yn ganmoliaeth sylweddol i rôl y SDTC.

### 6.2 Trosoledd economaidd

Mae gweithgarwch SDTC yn gweithio gyda CP i gael cytundebau ETC Glastir wedi dod â buddsoddiad o'r Cynllun Datblygu Gwledig i economi Cymru ar lefel lleol.

Yn ystod cylch ymgeisio ETC Glastir 2011-12, lluniwyd 106 o gytundebau ETC Glastir yn cynnwys 947 porwr gweithredol, sydd gyfystyr â 67,500 hectar o dir comin. Dros bum mlynedd y cynllun, buasai'r incwm hwn yn gyfanswm o £11,475,000 ar y mwyaf, cyn unrhyw ddidyniadau/cosbau. Yn ychwanegol, cafwyd taliadau gweinyddol o £132,874 i'r CP. Mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad o £11,607,874 yng Nghymru.

Yn ystod cylch ymgeisio ETC Glastir yn 2013, mae ffigyrau dros dro yn awgrymu bod 26,000ha ychwanegol wedi ymuno â'r cynllun, sy'n cyfateb i uchafswm o dros £4,420,000 dros gyfnod pum mlynedd. Rhagwelir taliadau gweinyddol o £88,718 i'r CP. Mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad amcangyfrifedig o £4,508,719 yng Nghymru. Cyfanswm o £16,116,593 wedi'i fuddsoddi yn economi Cymru. Cyflawnwyd hyn trwy fuddsoddi £2,043,411 (tua 8:1).

## 7.0 SAFBWYNT Y BUDD-DDEILIAID

Cafwyd cyfarfod o fudd-ddeiliaid ar 3 hydref 2012. Fe wnaeth grŵp cynrychiadol fynychu'r cyfarfod, yn cynnwys swyddogion lleol a staff uwch Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Fforwm yr Ucheldir, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Llywodraeth Cymru.

Cafwyd cyfarfod wedi'i hwyluso â nifer benodol o gwestiynau i'w trafod. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r negeseuon allweddol o'r broses honno. Ystyrir y cwestiynau a'u hymatebion isod.

Roedd y set gyntaf o gwestiynau yn ymwneud â chanfod safbwyntiau'r budd-ddeiliaid ar y sefyllfa ar y tiroedd comin cyn lansio ETC Glastir. Cytunwyd fod llawer o'r CP heb eu trefnu'n ffurfiol a heb gyfansoddiad. Nid oedd Tir Gofal wedi llwyddo i ddod â chominwyr ynghyd i gydweithio i gyflawni deilliannau cytûn. Roedd rhai enghreifftiau blaenorol o CP yn cydweithio â chyrff allanol, ond roedd y rhain yn gyfyngedig ac yn aml iawn yn fentrau tymor byr, yn gysylltiedig â phrosiectau wedi'u hariannu â grant 3-5 mlynedd a nifer fechan o gytundebau Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (AAS).

Teimlid fod brwdfrydedd dros ETC Glastir erbyn hyn, ond efallai fod hyn yn rhannol oherwydd colli Tir Mynydd yn ardaloedd ALIFf ac AAF Cymru. Yn yr un modd, fe wnaeth y negeseuon cymysg pan gyflwynwyd ETC Glastir, ynghyd â gwybodaeth anghywir oedd ar led, effeithio'n negyddol ar ganfyddiad porwyr o risg mewn perthynas â chyfranogi yn y cynllun.

Cydnabu'r budd-ddeiliaid fod heriau sylweddol yn wynebu porwyr tiroedd comin, nid yn lleiaf poblogaeth sy'n heneiddio ac allfudiad sgiliau o'r ucheldiroedd yn ystod pob cenhedlaeth. Ystyriai'r holl fudd-ddeiliaid fod tir comin yn fwy na system amaethyddol, oherwydd mae'n cynnig manteision diriaethol ar gyfer mynediad, hamdden a gwasanaethau eraill i ecosystemau. Cydnabu'r budd-ddeiliaid fod hyn yn golygu heriau sylweddol i borwyr ac asiantaethau fel ei gilydd.

Ystyrid fod cyfraddau stocio rhy isel yn fater allweddol nad oedd yn cael ei gydnabod yn briodol gan yr holl fudd-ddeiliaid. Credid fod angen isafswm penodol o borwyr ar y tiroedd comin, a heb yr isafswm hwnnw, ni fydd digon o borwyr yn weddill i gynnal cynefinoedd y defaid. O ganlyniad i ddiwedd arferion pori fel y rhain, buasai rhagor o bwysau ar y Ffriddoedd, a gallai hynny effeithio ar gynefin a diddordeb rhywogaethau yn yr ardaloedd amaethyddol ymylol hyn.

Ar waethaf hyn, cytunwyd y gellid adfer rheolaeth tir comin yn yr ucheldiroedd trwy fuddsoddi mewn amaethyddiaeth ymylol, ail-werthuso'r gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned fel cyfanrwydd gan y CP, ac ailgyflwyno system o hawliau o fewn ardaloedd ALIFf ac AAF yng Nghymru.

Gofynnwyd i fudd-ddeiliaid beth oedd eu dyheadau a'u disgwyliadau o ran rôl y SDTC. Yn yr achos hwn, credai'r mwyafrif mai'r gwaith pwysicaf oedd galluogi CP i gael cytundebau ETC Glastir a gwneud synnwyr o'r derminoleg a'r broses

oedd yn angenrheidiol ar gyfer y cais.  Credid fod y SDTC yn wynebu her anodd wrth geisio cyflwyno ac egluro CAA nad oedd wedi'i brofi cyn ei lansio a buasai'n rhaid datrys unrhyw faterion gyda LlC wrth i'r cytundebau symud yn eu blaen - proses o bolisi ymaddasol.

Roedd rhai pryderon y gallai'r broses SDTC beri rhwyg ar diroedd comin lle'r oedd perthnasau â budd-ddeiliaid eisoes yn bodoli.  Nid oedd sail i'r pryderon hyn.  Mewn gwirionedd, dywedwyd na allai unrhyw un ddwyn i gof unrhyw sylwadau negyddol yn lleol nac yn genedlaethol ynghylch perfformiad y SDTC. Roedd pryder ar y cychwyn hefyd na fuasai gan y GGLl ddigon o brofiad o weithio â phorwyr tiroedd comin.  Nid oedd hyn yn destun pryder i'r budd-ddeiliaid.

Canmolwyd y broses o recriwtio SDTC.  Roedd ymgeiswyr wedi'u dewis yn dda, a chroesawyd y ffaith fod budd-ddeiliaid wedi cael cyfle i gyfranogi yn y broses cyfweld.  Ystyrid fod y pwyslais ar swyddogion lleol yn gweithredu yn eu cymunedau lleol ac yn meddu ar ddealltwriaeth o faterion lleol yn gryfder.

Roedd y cwestiwn nesaf yn holi budd-ddeiliaid ynglŷn â sut oeddent wedi cydweithio â'r SDTC. Teimlid mai cryfder rôl y SDTC oedd y ffaith nad oedd ganddynt unrhyw hanes blaenorol o weithio gyda'r CP.  Roedd gan rai budd-ddeiliaid agwedd gefnogol a pharod i gynorthwyo, gan ymateb i geisiadau am wybodaeth heb ymwneud yn ormodol â gwaith y SDTC.   Ystyrid fod y dull gweithredu 'newydd i dir comin' yn gryfder sylweddol, heb y 'yr un hen wynebau' yn cyfarwyddo yn y cefndir.

Ar gychwyn y cynllun, gallai'r SDTC ymbellhau eu hunain yn weithredol oddi wrth LlC.  Ar yr un pryd, roeddent yn gallu cefnogi'r CP a LlC trwy weithredu fel sianel lle gellid cyfeirio cwestiynau, pryderon ac addasiadau i ETC Glastir. Roedd y SDTC yn darparu tryloywder i'r CP ac fe wnaethant hefyd symbylu'r angen i ganfod atebion i gwestiynau gan y CP wrth iddynt godi.

Roedd ychydig o drafod ynghylch terfynau rôl y SDTC, oherwydd nid oeddent wedi'u diffinio'n fanwl, ac efallai na ellid gwneud hynny.  Roedd cynnig gormod o gefnogaeth i'r CP yn negyddol, oherwydd nid oedd yn caniatáu iddynt feithrin eu gallu eu hunain.  Ar waethaf hyn, cytunwyd fod caniatáu datblygu atebion gwahanol mewn ymateb i anghenion amrywiol y tiroedd comin yn well dull o weithredu na thueddiad CAA o gynnig un ateb sy'n gweddu i bawb.

O ran rhannu gwybodaeth, credai budd-ddeiliaid eu bod wedi'u hysbysu'n gyffredinol ynghylch gweithgareddau a chynnydd y SDTC, er bod ychydig o amrywiad ar draws Cymru.  Yn gyffredinol, roedd y cyswllt wedi bod yn dda a phrofiad y SDTC/budd-ddeiliad wedi bod yn un positif.

Yna, gofynnwyd i'r budd-ddeiliaid am y defnydd o ddull gweithredu LEADER a pha un ai a oedd hyn yn rhan anhepgor o waith y SDTC neu beidio. Ystyrid fod egwyddorion LEADER yn ddull priodol o symbylu grŵp oedd eisoes yn bodoli neu weithredu fel sbardun ar gyfer grwpiau a dulliau gweithredu newydd. Teimlid nad LEADER yn ei wir ystyr oedd hyn, ond roedd yr egwyddorion wedi gweithio'n dda o fewn strwythur CAA.   Roedd y dull gweithredu hwn wedi caniatáu trafodaeth ymhlith porwyr a rhwng porwyr a budd-ddeiliaid, ac wedi

cynorthwyo pobl i weld yr elfennau cyffredin a’r heriau. Dylid ystyried llwyddiant y dull gweithredu hwn yng nghyd-destun dileu taliadau Tir Mynydd, gan adael llawer o borwyr heb unrhyw ddewis arall ond ystyried ETC Glastir.

Mynegodd y porwyr bryder ynghylch pa mor llwyddiannus a fuasai’r dull hwn yn yr Elfen wedi’i Thargedu, oherwydd buasai’n rhaid i dirfeddianwyr gymryd rhan yn nhrafodaethau’r Elfen wedi’i Thargedu, rhywbeth nad oedd yn angenrheidiol yn achos yr ETC.

Ar waethaf hyn, ystyrid fod y SDTC yn darparu dolen gyswllt bwysig rhwng y buddiannau amrywiol ar y comin, a gallent hwyluso cyfaddawd lle byddai amrywiaeth o fuddiannau neu wrthdrawiad buddiannau.

Yna, gofynnwyd i’r budd-ddeiliaid pa mor bwysig oedd y cynnig o gymorth gan y SDTC er mwyn galluogi'r CP i symud ymlaen ag ETC Glastir.

Ystyrid fod y cynnig o gymorth â chostau cyfreithiol yn un o gryfderau'r dull gweithredu tebyg i LEADER. Ni fuasai llawer o’r CP wedi gallu talu am wariant o’r fath cyn derbyn y taliad cyntaf. Buasai diffyg cyllid wedi atal sawl CP rhag symud ymlaen y tu hwnt i’r cam MD. Roedd costau ymgeisio am ETC Glastir yn sylweddol; roeddent yn cynnwys costau hysbysebu a hysbysiadau cyfreithiol, ffioedd cyfreithiol, llogi mannau cyfarfod a chostau gweinyddol.

Ystyrid fod darparu cyllid a chymorth i drefnu wedi bod yn fuddiol i'r CP, a bod darparu cyllid ar gyfer ffioedd cyfreithiol, llogi ystafelloedd a gweinyddu wedi chwalu un o'r rhwystrau posibl rhag gwneud ceisiadau.

Gofynnwyd i fudd-ddeiliaid a oedd y diffiniad o 'borwr gweithredol' wedi achosi unrhyw broblemau iddynt. Ystyrid hyn yn rhywbeth oedd yn achosi rhwygiadau, yn bennaf oherwydd y derminoleg a ddefnyddid. Y diben yng nghynllun ETC Glastir oedd caniatáu i'r porwyr eu hunain benderfynu beth oedd porwr gweithredol. Fodd bynnag, mae hyn wedi creu anghysondebau yn y diffiniad a'r dull gweithredu ar draws Cymru. Ystyrid y buasai diffinio hyn ar sail y gyfran o dda byw ar y comin wedi bod yn well. Teimlid fod y diffiniad yn ei gwneud hi'n anoddach i'r SDTC ddarparu cyngor ar gytundebau mewnol. Cymhlethwyd y sefyllfa o dan rai amgylchiadau lle’r oedd CCGC yn talu porwyr i gadw eu da byw oddi ar y comin fel rhan o gytundeb rheoli Adran 15.

Canfuwyd problemau hefyd lle’r oedd CCGC yn cyd-drafod cytundeb Adran 15 ag unigolyn ar gomin lle’r oedd SDTC yn cyd-drafod cytundeb ETC Glastir.

Gofynnwyd i fudd-ddeiliaid a oeddent yn credu y gellid cynnal y cydweithio a welid rhwng y CP yn y tymor hir.

Ystyrid y buasai angen bob amser cael porwr arweiniol neu unigolyn yn fodlon gweithredu fel pwynt cyswllt a threfnu'r grŵp. Buasai ariannu ysgrifennydd yn cynorthwyo, ond ni fuasai'r momentwm yn parhau oni bai bod pwrpas i'r cyfarfod. Ystyrid ei fod yn bwysig meithrin y bobl hynny sy’n bwysig yn lleol, a gallai hyn fod yn rhan o waith y SDTC yn y dyfodol.

Ystyriai budd-ddeiliaid fod sefydlu grŵp â chyfansoddiad yn gam bychan ond sylweddol i sawl CP, oherwydd bydd y fframwaith yn parhau ar ôl ei sefydlu. Hyd yn oed os na fydd y grwpiau'n cyfarfod yn rheolaidd, bydd y fframwaith yn ei le pe bai angen ei ddefnyddio. Roedd pryder fod rhai CP wedi'u sefydlu'n rhy gyflym mewn ymateb i ETC Glastir, ac felly, ni fyddant yn ddigon cryf i oroesi yn y tymor hir heb gefnogaeth barhaus.

Gallai sefydlu grwpiau cyfansoddedig alluogi cyfleoedd newydd i weithio gydag eraill ar faterion llywodraethu tir comin, megis atal gyrru oddi ar y ffordd, tipio anghyfreithlon, llosgi, gadael da byw, gweithio gyda'r Heddlu, damweiniau ffordd yn ymwneud â da byw, ac ymgyrchoedd dros gyfyngiadau cyflymder is. Gallai cydweithio a phwysau gan gyfoedion o fewn grŵp cyfansoddedig hefyd fod yn bwysig o ran rheoli aelodau'r CP nad ydynt yn cydymffurfio. Gallai rheolau neu godau ymddygiad wedi'u cynnwys yn y cytundeb mewnol gefnogi gweithredu o'r fath a darparu rheoleiddio mewnol. Yn yr un modd, roedd y budd-ddeiliaid yn cydnabod natur annibynnol rôl y SDTC yn y cyd-destun hwn.

I gloi, gofynnwyd i fudd-ddeiliaid a oedd y dull gweithredu wedi bod yn un positif i diroedd comin. Cytunai pawb ei fod wedi darparu fframwaith positif i ddarparu ar gyfer tir comin. Mae wedi darparu fframwaith a rhwydwaith o bobl y gall eraill gyfathrebu â hwy a thrafod llywodraethu'r comin, diogelu cynefinoedd, a materion mynediad a hamddena gyda hwy. Mae wedi dod â mwyafrif y cominwyr ynghyd mewn amgylchedd ble gallant weithio gyda'i gilydd tuag at amcan cytûn ac er budd y naill a'r llall. Yn flaenorol, ni ddeuai cominwyr ynghyd oni byddai diddordeb personol iddynt. Ystyrid fod galluogi grŵp o'r fath yn ganolbwynt positif i adeiladu arno i'r dyfodol.

Ar lefel strategol, mae wedi amlygu'r angen am gymorth ymarferol â chynlluniau Amaeth-amgylcheddol wedi'u hariannu. Credir fod angen wyneb dynol ac mae'n pwysleisio pa mor bwysig yw cael y person cywir i wneud y gwaith, yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth, yr arbenigedd a'r doethineb i alluogi cynlluniau megis ETC Glastir a CP i ddatblygu'n bositif.

Ar y cyfan, roedd y budd-ddeiliaid yn croesawu'r dull gweithredu tebyg i LEADER fel cam positif i ddatblygu gallu Cymdeithasau Porwyr Cymru.

## 8.0 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Y casgliad cyntaf yw bod y SDTC a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd ganddynt wedi herio gwybodaeth anghywir a chamsyniadau sydd ar led ynghylch tiroedd comin a'u gallu i ymuno â chytundebau rheoli yng Nghymru. Mae'n hysbys fod tiroedd comin yn gymhleth yn gyfreithiol ac mae cysoni gofynion ymuno â CAA â rheolaeth draddodiadol a dulliau lleol o reoli tiroedd comin wedi bod yn broblemus. Mae dull y SDTC o gyflawni hynny wedi cael sylw'r adroddiad hwn.

Mae'n amlwg bod y SDTC a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y GGLl wedi gweithio ar sawl lefel. Yn gyntaf, mae'r broses wedi gweithredu'n effeithiol ar lefel lleol, fel mae'r arolwg o CP wedi dangos. Ar waethaf amrywiadau bychain rhwng y GGLl a'r SDTC unigol, mae lefel y gymeradwyaeth yn gyson iawn. Fe wnaeth hyn alluogi porwyr i weithio trwy ofynion y cynllun a threfnu eu hunain â chymorth rhywun a ystyrir yn niwtral yn bennaf ond sydd â chysylltiad â LIC ac yn gwybod llawer iawn am y cynllun.

Yn ail, mae'n ymddangos fod SDTC wedi bod yn llwyddiannus â sefydliadau allanol, yn lleol ac yn genedlaethol. Fe wnaeth y cyfarfod budd-ddeiliaid ddangos y gefnogaeth helaeth sy'n bodoli i rôl y SDTC a'u dull gweithredu. Mae hyd yn oed y rhai oedd yn amau ar y dechrau yn cytuno nad oedd sail i'w pryderon, a bod y canlyniadau wedi darparu ychydig o sefydlogrwydd yn rheolaeth y tiroedd comin a fframwaith y gallant gael eu hymgysylltu'n rhwydd a theg oddi fewn iddo.

Mae'r dull gweithredu LEADER a fabwysiadwyd gan y GGLl wedi bod yn ddull effeithiol a llwyddiannus iawn o ymgysylltu â phorwyr. Fodd bynnag, ym marn y budd-ddeiliaid yn benodol, yn ogystal â'r SDTC eu hunain, nid oedd yn ddull gweithredu LEADER yng ngwir ystyr y gair. Mewn geiriau eraill, er bod hwyluso a meithrin gallu yn digwydd yn lleol, nid oedd y rheswm dros ymgysylltu 'o'r gwaelod i fyny' oherwydd roedd eisoes wedi'i bennu fel 'ystyried mynediad i ETC Glastir'. Buasem felly'n awgrymu ei fod yn gyfuniad o egwyddorion LEADER a gwasanaethau cyngor amaethyddol traddodiadol yn y maes. Fe wnaeth y cynnig o gyngor ac arweiniad diduedd ac ymatebol weithio'n dda i borwyr. Roedd y porwyr hefyd yn ymateb i newidiadau mewn taliadau cymorth amaethyddol yn sgil colli Tir Mynydd yn y dyfodol agos. Yr unig ddewis yn lle'r cynllun seiliedig ar hawl hwn oedd ystyried ymuno ag ETC Glastir.

Daw manteision y gwasanaeth 'hyd braich' a ddarperir gan y SDTC i'r amlwg yn sylwadau'r CP. Yn ôl y CP, yr agweddau mwyaf gwerthfawr oedd gallu'r SDTC i hwyluso a threfnu i ddod â'r porwyr ynghyd a'u cynorthwyo yn y broses o wneud cais am ETC Glastir. Roedd y SDTC eu hunain yn hoffi'r ffaith nad oedd ganddynt unrhyw dargedau, ac er bod gan LIC darged enwol ar gyfer ETC Glastir, nid oedd y GGLl yn gwybod am hyn, er mai hwy oedd y cyfrwng i gyflawni hyn. Fodd bynnag, fe wnaeth y cyfuniad o bellter a gwybodaeth alluogi'r SDTC i alluogi'r porwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch sut i ymuno â'r cynllun.

Fe wnaeth yr arolwg o'r GGLl a'r cyfarfod budd-ddeiliaid gadarnhau safbwyntiau'r SDTC fod y broses o ymuno ag ETC Glastir nid yn unig wedi trefnu'r porwyr, ar brydiau roedd yn ailgyflwyno strwythur rheoli oedd wedi dirywio dros yr 20 mlynedd diwethaf, fwy neu lai. Fe wnaeth hefyd wella gallu'r porwyr, ac fe wnaeth sawl un ohonynt ymgymryd â rolau megis cadeirydd, ysgrifennydd neu drysorydd. Mae'r budd-ddeiliaid allanol, yn benodol CCGC ac undebau'r amaethwyr, hefyd yn credu fod yna fframwaith cryfach a thecach iddynt weithio oddi fewn iddo yn y dyfodol. Felly, mae tystiolaeth o feithrin gallu llorweddol (rhwng porwyr) a fertigol (o'r porwr i'r asiantaeth genedlaethol.

Yn ystod y broses o arwain CP trwy ETC Glastir, fe wnaeth y SDTC weithio gyda nifer o borwyr lleol ac mae hyn wedi cynyddu lefel y cydweithio rhyngddynt hwy ac wedi cynyddu eu cysylltiadau. Fe wnaeth 93.1% o'r CP gynnwys y SDTC yn eu cyfarfodydd DD ETC Glastir a gwnaeth 83% eu cynnwys wrth ddatblygu'r cais ETC, felly roedd gwybodaeth a dealltwriaeth y SDTC o gynllun ETC Glastir yn allweddol.

Hefyd, mae ETC wedi arwain at fuddsoddiad yn Economi Cymru ar lefel lleol ar raddfa buddsoddiad a chost o 8:1.

**8.1 Newidiadau argymelledig**

Er bod dull gweithredu'r GGLl a gwaith y SDTC wedi bod yn llwyddiannus ar sawl lefel, rydym yn cynnig ychydig o addasiadau i'r GGLl eu hystyried.

Mae rhai anghysondebau rhwng y tri GGLl, o ran yr hyn maent yn barod i'w ariannu yn ystod cyfnod paratoi cytundeb ETC Glastir. Er enghraifft, fe wnaeth PLANED a Menter Môn gynnig ychydig o gymorth ariannol i dalu am ystafelloedd cyfarfodydd a gosod hysbysebion yn y wasg leol, ac er bod Cadwyn Clwyd yn gallu gwneud hyn, ni wnaeth hybu hyn. O gofio na wnaeth neb godi hyn fel mater, rydym yn awgrymu i'r GGLl nodi ble mae eu darpariaeth yn wahanol, ac ystyried adolygu hyn, fel na fyddant yn agored i sylwadau gan borwyr bod yna 'loteri cod post' o ran y gefnogaeth sydd ar gael.

Er mwyn gwella'u gwybodaeth am y trioedd comin yn eu hardal benodol, fe wnaeth pob GGLl dreulio amser yn casglu data o'r cofrestri tir comin a gedwir gan yr Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin lleol. Er bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol dros ben mewn trafodaethau â'r CP, ni chafwyd arweiniad am hyn gan LIC fel dull cyson a fuasai'n cynhyrchu data defnyddiol y tu allan i'r ymarfer hwn. Gan ystyried yr ymdrech gan y GGLl i ddiweddaru'r cofrestri, mae'n ymddangos fod hwn yn gyfle a fethwyd gan LIC. Serch hynny, rydym yn dal yn credu fod y gwaith a wnaed gan y GGLl ar ran y cofrestri o fudd i LIC a gweithredu Rhan 1 Deddf Tiroedd Comin 2006, a dylid ei ystyried yn fanylach.

Ymddengys hefyd fod gan y tro GGLl ddulliau gwahanol o drefnu hyfforddiant, ac roedd diffyg cydweithio ar yr agwedd hon yn gyffredinol. Rhaid cyfaddef nad oedd bob amser yn eglur pa hyfforddiant oedd yn ofynnol, ac roedd y gyllideb yn gyfyngedig. Fodd bynnag, fe wnaeth pob un o'r SDTC awgrymu y buasai ychydig (neu ragor) o hyfforddiant hwyluso wedi bod yn fuddiol. PLANED yn unig a ddarparodd hyfforddiant hwyluso, trwy law Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro Fodd bynnag, rhannwyd ychydig o hyfforddiant a dogfennaeth rhwng y GGLl, a chroesawyd hyn gan y SDTC.

Serch hynny, buasai rhagor o gydlynu ar y cychwyn wedi galluogi'r GGLl i rannu costau.

Gan gymryd yn ganiataol y bydd rôl y SDTC yn parhau fel rydym yn ei gynnig, yn y dyfodol, dylid gwella'r cyfathrebu rhwng CCGC a'r SDTC. Yn benodol, ymddengys rhai sefyllfaoedd lle'r oedd cytundebau rheoli Adran 15 yn cael eu cyd-drafod gan swyddogion CCGC, â SDTC yn trafod ymuno ag ETC Glastir ar yr un comin. Mewn rhai achosion, fe wnaeth y trafodaethau cyfochrog hyn naill ai oedi neu danseilio'r CP oedd yn ymuno ag ETC Glastir.

**Materion ehangach a godwyd gan ETC Glastir**
Roedd gallu'r SDTC i holi cwestiynau i LIC trwy Oruchwylwyr SDTC yn hollbwysig, yn enwedig o gofio fod meysydd o bryder gwirioneddol i'r CP. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg fod y diffyg llenyddiaeth gan LIC ar y cychwyn yn rhwystr, ac fe wnaeth hyn roi'r SDTC mewn sefyllfa anodd. Roedd parodrwydd LIC i wrando a gwneud newidiadau bychain i'r cynllun mewn ymateb i'r cwestiynau hyn yr un mor bwysig. Roedd tri chanlyniad i'r broses hon:

(i) Cryfhawyd sefyllfa'r SDTC o fewn y CP oherwydd roedd yn awgrymu i'r porwyr fod LIC yn gwrando arnynt.
(ii) Roedd y CP yn teimlo'u bod yn cael gwrandawiad gan LIC, a bod eu cwestiynau a'u pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif.
(iii) Cafodd y cynllun ei hun ei wella a daeth yn gryfach ac yn fwy addas i anghenion tiroedd comin o ganlyniad i hynny.

Roedd y diffyg eglurder ar ddechrau'r cynllun hefyd yn destun pryder. Roedd hyn yn fwyaf amlwg yn y diffiniad o 'borwr gweithredol'. Er bod hyn yn fater roedd angen ei ddatrys a'r GGLl yn ei ddiffinio'n wahanol, efallai bod diffyg diffiniad penodol wedi bod yn fendith gudd. Fe wnaeth hyn alluogi'r SDTC i fod yn fwy hyblyg gan adlewyrchu sefyllfa'r comin, ac fe wnaeth hefyd ddiwallu gofynion y cynllun, sef yr angen i gynnwys 80% o'r sawl sydd â'r gallu i arfer hawliau ar y comin mewn unrhyw gytundeb. Nid oedd yr ansicrwydd a grëwyd gan hyn yn ddefnyddiol, a gellid bod wedi'i osgoi. Roedd rhai pryderon y gallai cysylltu â phorwyr anweithredol eu hysgogi i ddod yn weithredol, ond ymddengys fod hyn yn bryder yn achos ychydig o diroedd comin yn unig.

Dylai nod allweddol diffiniad 'porwr gweithredol' fod wedi galluogi a chynorthwyo CP i benderfynu beth oedd y trefniant iawn i reoli'r comin yr oeddent yn ei bori yn y tymor hir. Mae'n amlwg hefyd nad yw un diffiniad yn addas i bob comin, ond byddai rhagor o arweiniad ar gyfer SDTC ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol o fewn yr elfen hon wedi bod yn llesol.

Efallai y gellir ystyried y gyfres o ddigwyddiadau a ddisgrifir yma yn ymwneud â'r SDTC ac ETC Glastir fel polisi ymaddasol, oherwydd roedd yn ymateb i anghenion porwyr yn hytrach na rhywbeth a orfodwyd o'r brig i lawr. Fodd bynnag, dylid cydnabod mai cyd-ddigwyddiad yn hytrach na rhywbeth bwriadol oedd hyn, a'r SDTC, y goruchwylwyr yn enwedig, wnaeth alluogi newid trwy ymgysylltu â'r CP a chasglu cwestiynau ganddynt a'u hanfon at LIC i gael ymateb. Roedd y cwestiynau a holwyd gan y CP ac a anfonwyd at LIC yn

bwysig o ran creu newidiadau o fewn ETC Glastir yn ystod 12 mis cyntaf y cynllun.

**Rôl i'r dyfodol**
Wedi 2 flynedd o elfen ETC Glastir, mae'n amlwg fod gwahaniaeth sylweddol wedi'i wneud i reolaeth leol y tiroedd comin a chyflawni targedau ETC Glastir. Fodd bynnag, mae'r gwaith wedi'i gyflawni'n rhannol yn unig. Mae nifer o diroedd comin cymwys yn dal yn ystyried ymuno ag ETC Glastir, ac mae'n debyg y bydd angen yr un lefel o gefnogaeth arnynt, efallai rhagor. Hefyd, mae gweithredu'r cytundeb yn bwysig, oherwydd mae'r SDTC mewn safle cryf i ymgymryd â neu gomisiynu materion yn ymwneud â dyddiaduron stoc a phontio rhwng y CP ac asiantaethau allanol. Mae'r GGLl eisoes wedi adnabod meysydd 'Ôl-ofal ar gyfer y SDTC. Mae'n amlwg o'r ymchwil hwn a'r adborth cyffredinol a gafwyd fod y SDTC wedi llenwi bwlch o ran cynnig arweiniad diduedd a gwybodus i ffermwyr.

Ar gyfer y flwyddyn nesaf, rydym yn awgrymu y dylai'r SDTC ganolbwyntio ar:

- Wella trefniadau presennol fel eu bod yn cyflawni gofynion y cynllun a bod y CP yn gweithredu'n effeithiol.
- Cynorthwyo'r tiroedd comin hynny sy'n ystyried Elfen wedi'i Thargedu Glastir i ymuno â'r rhan hon o'r cynllun. Bydd angen trafod â'r tirfeddiannwr/perchennog y tir i gyflawni hyn.
- Parhau â'u rôl 'hyd braich' ond cynghori ar gydymffurfio a datrys problemau.
- Cynorthwyo ag unrhyw CP sy'n mynd trwy broses o newid, trwy gyd-drafod â budd-ddeiliad allanol efallai.

Mae goblygiadau ehangach ar gyfer cynllun Glastir fel cyfanrwydd. Efallai y gellir ystyried rôl y SDTC ar gyfer Elfen Cymru Gyfan Glastir. Mae presenoldeb unigolyn diduedd ond gwybodus a all dywys ffermwr trwy broses ymgeisio yn llesol, a buasai'n meithrin gallu'r gymuned amaethyddol i ymateb i newidiadau yn fwy hyderus.

Yn achos y tiroedd comin yn benodol, mae rôl a llwyddiannau'r SDTC yn cynnig mantais ddiwylliannol. Aed i'r afael â her gymhleth ar ran LIC, ac i ryw raddau, wedi datrys dirywiad dulliau rheoli traddodiadol ar y tiroedd comin. Mae'r broses o ymuno â Glastir wedi darparu fframwaith, yn aml iawn trwy ailgyflwyno fframwaith oedd yn bodoli, a gellir defnyddio hyn ar gyfer cyfathrebu mewnol ac allanol.

Gan ystyried pwysigrwydd enfawr tir comin yng Nghymru fel ardal amaethyddol, y gyfran sydd â dynodiadau amgylcheddol a'r gwasanaethau ecosystem a gynigir gan yr ardaloedd hyn (e.e. dŵr glân, atafaelu carbon ac atal llifogydd) mae gwella trefnu a llywodraethu lleol yn cynnig sawl mantais.

Bydd yn bwysig monitro'r newid yn y CP hyn dros gyfnod o amser, i weld sut maent yn gweithredu a pha un ai a allant wneud penderfyniadau effeithiol. Bydd gallu'r cymdeithasau lleol eu hunain i reoleiddio'r sawl nad ydynt yn dilyn gofynion ETC Glastir yn bwysig. Buasai'n ddiddorol iawn hefyd i fonitro'r newidiadau yn ymddygiad a chymhellion y grwpiau hyn dros gyfnod o amser

trwy gyfrwng astudiaethau achos yn cynnwys sampl gynrychiadol o diroedd comin Cymru.

### 8.2 Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Grwpiau Gweithredu Lleol – *Gwersi a Ddysgwyd*

- Mabwysiadu'n ffurfiol ymagwedd ymaddasol at bolisi Amaeth-amgylcheddol yn ystod profion byw CAA ar sail adborth gan Swyddogion a derbynyddion
- Gweithredu'n gyflym a chadarn i fynd i'r afael â gwybodaeth anghywir
- Darparu pecynnau gwybodaeth o fewn da bryd cyn agor cyfnod ceisiadau
- Darparu hyfforddiant mewnol i SDTC ar y cynllun ETC, yn enwedig o ran hwyluso
- Cydnabod ac adeiladu ar werth y dull gweithredu 'hyd braich', ac efallai gwneud dadansoddiad SWOT a'i gynnwys yn y meddylfryd ar gyfer 2014.

Grwpiau Gweithredu Lleol - *Cyfathrebu*

- Sefydlu fforwm trafod rhwng LIC, SDTC a phartneriaid perthnasol i alluogi ymagwedd ymaddasol at bolisi
- Sefydlu fforwm trafod chwarterol rhwng Goruchwylwyr Prosiect SDTC, LIC, CCGC a grwpiau diddordeb arbennig eraill

Grwpiau Gweithredu Lleol – *Dealltwriaeth*

- Sefydlu nifer o astudiaethau achos ar draws Cymru i fonitro cynnydd ETC Glastir ac effaith tymor hir dull gweithredu tebyg i LEADER y SDTC
- Gwneud archwiliad cymdeithasol o effaith ETC Glastir trwy astudiaethau achos
- Gwneud gwerthusiad ariannol ar lefel gymunedol o'r manteision a'r trosoledd a ddeilliodd o ETC Glastir
- Deall gwerthoedd a dylanwadau ar dir comin trwy wneud astudiaeth marchnata cymdeithasol o dir comin yng Nghymru

Grwpiau Gweithredu Lleol – *Edrych i'r dyfodol*

- Ystyried ymestyn dull gweithredu tebyg i LEADER a ddarperir gan y SDTC mewn cytundebau galluogol o fewn elfennau eraill Glastir
- Ystyried rôl y SDTC wrth ddarparu cyngor a gwybodaeth ar y berthynas rhwng gwasanaethau ecosystemau a thir comin
- Buddsoddi amser Swyddogion i gynnal ac adeiladu ar y CP a sefydlwyd at ddibenion Glastir i ddarparu fframwaith cadarn i'r dyfodol ar gyfer cyfathrebu i gymunedau pori tir comin Cymru
- Elwa ar sgiliau ac arbenigedd y SDTC wrth adolygu Cofrestri Tiroedd Comin Cymru

### 8.3 Argymhellion ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru

- Gwneud y gorau o'r cyfle hwn i weithio gyda CP cynrychioliadol, cyfansoddedig
- Gochel rhag tanseilio datblygiad CP trwy gyd-drafod cytundeb Adran 15 ag unigolyn
- Cychwyn paratoi protocol ar gyfer cyfathrebu â CP yn y tymor hir
- Bod yn barod i fynd i'r afael â materion tanbori gyda LIC a chychwyn ystyried dulliau o gynyddu pori

### 8.4 Argymhellion ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol

Grwpiau Gweithredu Lleol - *Cysondeb*

Datblygu dull gweithredu sy'n gyffredinol gyson o fewn fframwaith cyffredin ar draws yr ardaloedd GGLl i'w gyflawni trwy:

- Rhaglen gytunedig o hyfforddiant Cymru gyfan ar gyfer Swyddogion SDTC

Mae meysydd eraill i'w ystyried hefyd. Fodd bynnag, dylai unrhyw symudiadau tuag at gysondeb hefyd gydnabod y gwahaniaethau rhwng strwythurau trefniadol a diwylliannau sy'n bodoli rhwng GGLl gwahanol. Mae hyn yn ddealladwy o gofio dull LEADER o ddatblygu sefydliadau o'r gwaelod i fyny. Rydym yn awgrymu y dylai trafodaethau presennol rhwng y tri GGLl barhau a dylid eu hymestyn i gynnwys materion megis:

- dull gweithredu cyffredinol cyson at gasglu, dadansoddi a rheoli data er mwyn gwella gwerth y data hyn a gwella monitro a gwerthuso
- materion atebolrwydd a risg a chynnig gwasanaethau tebyg i'r CP

Grwpiau Gweithredu Lleol - *Cydweithio*

- Datblygu perthynas weithio strategol gyda CCGC a'i swyddogion rhanbarthol
- Trwy drafodaeth â CCGC, nodi cytundebau rheoli Adran 15 presennol neu rai dan ystyriaeth a phenderfynu sut maent yn berthnasol i ETC Glastir ac Elfennau wedi'u Targedu
- Nodi cyfleoedd i weithio ar y cyd ar fentrau presennol
- Parhau i ddeall, parchu a gweithio o fewn strwythurau pori presennol lle maent yn bodoli
- Ymgysylltu â phartneriaethau a gweithredwyr lleol presennol

Grwpiau Gweithredu Lleol – *Datblygu gallu i'r dyfodol*

- Parhau i gynnig cyngor ac arweiniad i ddeiliaid presennol cytundebau
- Cynnig cyngor ar gydymffurfio â'r ETC a chynorthwyo i ddatrys problemau
- Cynorthwyo CP i allu rheoli newid wrth i gytundebau esblygu mewn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau
- Cynorthwyo CP i gyfathrebu â budd-ddeiliaid allanol

- Cynorthwyo’r tiroedd comin hynny sy’n dymuno ystyried ac yn gymwys i ymaelodi â’r Elfen wedi’i Thargedu
- Cynnig cyngor cychwynnol i’r porwyr hynny sy’n dymuno cynnwys eu fferm eu hunain neu dir caeedig yn yr Elfen wedi’i Thargedu
- Parhau i gynnig cyngor ar gais i diroedd comin na aeth y tu hwnt i'r cam Datganiad o Ddiddordeb, ond a ddaeth yn gyfansoddedig

## 9.0 CYFEIRIADAU

Aitchinson, J (1997) Tiroedd Comin Cymru.  Adroddiad a baratowyd ar gyfer CCGC gan yr Uned Ymchwil Arolygon Gwledig, Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau'r Ddaear, Prifysgol Cymru Aberystwyth

Tudalen we CCGC http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/managing-land-and-sea/land-management/agriculture/common-land.aspx?lang=en

Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Llywodraeth Cymru (2012) Ymchwiliad i Glastir – Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewrop. E&S(4)-22-12 papur 2. Senedd, Caerdydd

Luxton ac eraill (2006) *The State of Common Land in Wales – an Indicative Study.*  RSPB Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE: *Archwiliad Iechyd 2008 y PAC.* Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

PLANED (2010) Cais i Lywodraeth Cymru am y Rhaglen Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin

Short C (2008) The Traditional Commons of England and Wales in the Twenty-First Century: meeting new and old challenges, *International Journal of the Commons* – Rhifyn Arbennig ar Diroedd Comin Ewrop, tt 192-221

Short (2000) Common Land and ELMS: a need for policy innovation in England & Wales, *Land Use Policy* 17 121-133

Short C and Winter M (1999) The Problem of Common Land: towards stakeholder governance, *Journal of Environmental Planning and Management* 42 (5) 613-630

Short C and Powell J (2000) Gwerthusiad o Adolygiad Fferm Gyfan a Chynllun Datblygu De Sir Benfro SPARC: *Adroddiad Terfynol, Uned Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedol, Cheltenham*

Llywodraeth Cymru (2010) Adnewyddu Economaidd:  cyfeiriad newydd Y Senedd, Caerdydd

Llywodraeth Cymru (2012) Pwyso a Mesur Glastir – Adroddiad ar y canfyddiadau. Y Senedd, Caerdydd

Gwefan Llywodraeth Cymru 2012 – Tudalennau Echel 3 ac Echel 4 http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/ruraldevelopment/axes3and4/?lang=en

## 10.0 GEIRFA

| | |
|---|---|
| ACRES | Cynllun Lleihau Carbon Amaethyddol |
| CAA | Cynllun(iau) Amaeth-amgylcheddol |
| ECG | Elfen Cymru Gyfan - Glastir |
| PAC | Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| CCGC | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| SDTC | Swyddog Datblygu Tiroedd Comin |
| ETC | Elfen Tir Comin - Glastir |
| DD | Datganiad o Ddiddordeb |
| AAS | Ardal(oedd) Amgylcheddol Sensitif |
| CP | Cymdeithas(au) Porwyr |
| ECG | Elfen Coetiroedd Glastir |
| GGLl | Grŵp(iau) Gweithredu Lleol |
| ALlFf | Ardal(oedd) Llai Ffafriol |
| PAVS | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| PLANED | Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu |
| CDG | Cynllun Datblygu Gwledig |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| HC | Henebion Cofrestredig |
| AAF | Ardal(oedd) dan Anfantais Fawr |
| SSSI | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| ET | Elfen wedi'i Thargedu - Glastir |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

## 11.0 ATODIADAU

**Atodiad (i)**

**Gofynion cymhwysedd ETC Elfen Tir Comin Cymru Gyfan Glastir**

Gofynion cymhwysedd ETC Elfen Tir Comin Cymru Gyfan Glastir, o Lyfryn Esboniadol a Llawlyfr Sut i Lenwi 2012 Elfen Tir Comin Cymru Gyfan Glastir.

**Gofynion cymhwysedd**

i. Bydd y Gymdeithas Porwyr wedi'i chofrestru fel cwsmer gyda Llywodraeth Cymru a bydd wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN).

ii. Byddwch wedi mynegi'ch diddordeb yn Elfen Tir Comin Cymru Gyfan Glastir.

iii. Bydd yr holl dir cymwys wedi'i gofrestru ar System Adnabod Parseli Tir (LIPS) Llywodraeth Cymru.

iv. Bydd gennych o leiaf 3ha dir cymwys. Darllenwch y paragraff am dir cymwys ac anghymwys isod.

v. Byddwch wedi ffurfio Cymdeithas Porwyr ag iddi statws cyfreithiol, cyn llofnodi cytundeb Elfen Tir Comin Cymru Gyfan Glastir.

**Nodyn Pwysig:** Bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gytundeb Elfen Tir Comin Cymru Gyfan Glastir â Chymdeithas Porwyr sydd â chyfansoddiad cyfreithiol yn unig.

vi. Bydd o leiaf 80% o'r porwyr gweithredol ar y tir a ddaw o dan Elfen Tir Comin Cymru Gyfan Glastir yn aelodau o'r Gymdeithas Porwyr.

vii. Rhaid cyflwyno ffurflen gais ddilys am Elfen Tir Comin Cymru Gyfan erbyn 26 Awst 2011.

vii. Ni fyddwch wedi gwneud niwed amgylcheddol sy'n groes i amcanion y Cynllun cyn dyddiad cychwyn Elfen Tir Comin Cymru Gyfan Glastir.

**Tir Cymwys**

Mae'r tir canlynol yn gymwys i ddod yn rhan o Elfen Tir Comin Cymru Glastir:

- Tir sydd wedi'i gofrestru'n gyfreithlon fel tir comin o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965 ac sy'n cael ei ddefnyddio gan fwy nag un porwr.

- Tir heb ei amgáu sy'n cael ei bori gan fwy nag un porwr yr un pryd ac sydd a nodweddion tir comin (e.e. tir uchel heb ei amgáu, tir pori garw ac ati) ond nad yw wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965. Caiff y penderfyniad p'un ai i gynnwys neu wrthod y tiroedd hyn ei wneud bob yn un ar ôl asesiad technegol gan Lywodraeth Cymru.

**Tir Anghymwys**

- Tir wedi'i ddatblygu, safleoedd carafanau sefydlog, cyrsiau golff a thir sy'n cael ei ddefnyddio fel storfa barhaol ac ati.

- Tir comin o dan reolaeth un porwr gweithredol.  Er enghraifft, rhan o dir comin cofrestredig sy'n cael ei defnyddio gan un porwr, sef yr unig un sydd a hawliau pori 'actif' ac sy'n defnyddio'r hawliau hynny.  Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r tir hwn fynd o dan Elfen Cymru Gyfan Glastir.

- Rhan o barsel cae.

- Tir y tu allan i Gymru.

- Tir nad oes gennych reolaeth arno am 5 mlynedd.

- Tir comin sy'n rhan o gytundeb Tir Gofal sy'n weithredol ar 1 Ionawr 2012.

- Tir sy'n rhan o gytundeb rheoli arall a fyddai'n golygu'ch bod yn cael eich talu ddwywaith.  Er enghraifft, Cytundeb Adran 15 gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac sy'n weithredol ar 1 Ionawr 2012

**Atodiad (ii)**

**Grwpiau Gweithredu Lleol (GGLl) Cymru**

Gwybodaeth gryno am dri Grŵp Gweithredu Lleol Cymru.

Sefydlwyd **Menter Môn** yn 1995 i ddarparu rhaglenni datblygu gwledig yr UE yn Ynys Môn. Mae'n gwmni trydydd sector gyda bwrdd cyfarwyddwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat, gwirfoddol a chymunedol. Prif nod y cwmni yw hwyluso adfywiad economaidd gwledig yn Ynys Môn. Er mwyn gwneud hyn, mae Menter Môn yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod a dathlu adnoddau unigryw a gwerthfawr yr ynys, o'r Gymraeg a'r wiwer goch i'n harfordir trawiadol a'n pobl ifanc galluog. Mae'r cwmni wedi denu dros £40 miliwn o arian grant o ffynonellau amrywiol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau ers ei sefydlu bron i ugain mlynedd yn ôl. Y mae wedi cyllido prosiectau mor amrywiol â sefydlu Theatr Ieuenctid, ailwampio adeiladau cymunedol, rhoi lleoliadau gwaith i raddedigion, ac yn fwyaf diweddar, FAB LAB (Labordy Gwneuthurion) a Stiwdio Recordio.  Mae rhagor o wybodaeth am brosiectau presennol a gweithgareddau Menter Môn ar ein gwefan www.mentermon.com.

Asiantaeth Datblygu Gwledig yw **Cadwyn Clwyd Cyfyngedig**. Mae'n darparu arweiniad a chymorth i ddatblygu ac arallgyfeirio'r economi gwledig yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych drwy gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd (yr UE), cronfeydd domestig y Deyrnas Unedig (y DU) a chronfeydd sector preifat. Mae'r Cwmni'n canolbwyntio ar weithredu sy'n ysgogi cyfranogi ar lawr gwlad, gweithio drwy bartneriaeth ac arloesi, i gefnogi prosiectau ar gyfer cymunedau gwledig a grwpiau sector. Mae'n gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau lleol i helpu i ddatblygu prosiectau sydd o fudd i economi lleol yr ardal a'u rhoi ar waith. Mae rhagor o wybodaeth am Cadwyn Clwyd a gweithgareddau prosiect ar gael ar y wefan: www.cadwynclwyd.co.uk

**PLANED** yw Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu (www.planed.org.uk), ac mae'n bartneriaeth dan arweiniad cymunedol, sy'n dod â chymunedau, asiantaethau cymorth a rhwydweithiau ynghyd er budd pobl leol.  Rôl PLANED yw annog cyfranogiad eang pobl leol i wella ansawdd eu bywyd, boed hynny'n ddiwylliannol, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol a/neu'n economaidd. Mae gan PLANED ran bwysig yn y gwaith o rymuso a galluogi cymunedau lleol i fod yn bartneriaid llawn a chyfartal yn natblygiad eu hardal, trwy raglenni'r UE a mentrau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae rhagor o wybodaeth am PLANED ar gael ar ein gwefan www.planed.org.uk

**Atodiad (iii)**

Enghraifft o ddisgrifiad swydd Swyddog Datblygu Tiroedd Comin

## Cadwyn Clwyd
## Disgrifiad Swydd: Swyddog Datblygu Tiroedd Comin Glastir

**6 Swydd i wasanaethu'r ardaloedd gweithredol canlynol**

- Gogledd Ddwyrain Cymru – Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam
- Canolbarth Cymru - Powys
- De-ddwyrain Cymru – Sir Fynwy a Chasnewydd

Bydd un o'r swyddi uchod yn gweithredu fel Goruchwyliwr Tîm y mae ei gylch gwaith yn cynnwys rheoli'r Swyddogion Datblygu o fewn yr ardaloedd gweithredol (yn ychwanegol at ddarpariaeth ar lawr gwlad gyda chominwyr / porwyr).

| | |
|---|---|
| Teitl Swydd: | Swyddog Datblygu Tiroedd Comin Glastir |
| Lleoliad y swydd | Gartref yn bennaf (â chefnogaeth swyddfa yn Swyddfa Cadwyn Clwyd, Rhuthun). |
| Oriau | Swydd llawn amser, yn cynnwys gwaith gyda'r hwyr a phenwythnos. |
| Cytundeb | Ariennir y swyddi o dan Gynllun Datblygu Gwledig yr UE a gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, am gyfnod o 2 flynedd. |

| | |
|---|---|
| Cefndir | Mae tiroedd comin Cymru'n chwarae rhan bwysig fel adnodd amaethyddol, amgylcheddol, diwylliannol ac ar gyfer hamdden yng Nghymru. Mae tiroedd comin Cymru'n rhan bwysig o'r traddodiad ffermio, yn enwedig fel adnodd pori, ac mae'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o reoli tirweddau a chynefinoedd pwysig. Yng Nghymru, mae tua 1,550 o diroedd comin cofrestredig dros tua 175,000 hectar, sef tua 8% o arwynebedd Cymru gyfan.<br><br>Mae Glastir, Cynllun Rheoli Tiroedd cynaliadwy newydd Cymru, wedi nodi tiroedd comin fel rhan bwysig a allai fod o fudd i'r amgylchedd a'r cyhoedd o safbwynt rheoli pridd a charbon yn y pridd; rheoli dŵr a rheoli bioamrywiaeth.<br><br>Mae cyllid ar gael i benodi swyddogion Datblygu Tiroedd Comin dan fesur Cymorth Technegol Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13, i gynorthwyo cominwyr a phorwyr i sefydlu cymdeithasau porwyr, at ddiben ymuno â Glastir. |
| Diben y Swydd | Bydd y Swyddogion hyn yn gweithio gydag aelodau presennol y Cymdeithasau Porwyr / Cymdeithasau Tiroedd Comin lle bo'r angen i helpu i sefydlu grwpiau ffurfiol newydd<br><br>Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am gyd-drefnu a hwyluso cydweithredol a gweithio mewn partneriaeth ymysg cominwyr, er mwyn cyflawni amcanion budd-ddeiliaid Glastir a thrioedd comin ehangach. |

| | |
|---|---|
| | Bydd cyflawni hyn yn golygu cysylltu ag Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin yn lleol a, lle caniateir hynny o dan y rheoliadau sy'n llywodraethu'r Gofrestr Statudol o Diroedd Comin, darparu gwybodaeth a chefnogi cominwyr i wneud ceisiadau i wneud newidiadau i fudd-ddeiliaid y cofrestri.<br>Bydd y swyddogion yn gweithio â chominwyr i sefydlu grwpiau ffurfiol, â statws cyfreithiol, ac i gytuno ar brosesau sydd yn ymdrin yn ffurfiol â chytundebau a chyfamodau, ymddiriedolwyr a rheoli pwyllgorau, cyllid, olynwyr, gwarantau a chytundebau a datganiadau. |
| Dyletswyddau Allweddol | • Amlinellu'r materion sydd angen sylw ac amcanion rheoli eang y grwpiau tiroedd comin<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid i wrando ar eu safbwyntiau – y rhai â diddordeb cyfreithiol, cymunedau lleol, a grwpiau perthnasol eraill sydd â diddordeb<br>• Archwilio amrywiaeth o ddewisiadau rheoli i roi sylw i'r materion<br>• Pennu'r dewisiadau rheoli mwyaf priodol i gwrdd ag amcanion y grŵp, sy'n unol ag amcanion Glastir<br>• Hwyluso ac annog defnyddwyr tiroedd comin i sefydlu grŵp ffurfiol gyda statws cyfreithiol<br>• Nodi defnyddwyr cyson tiroedd comin, deiliaid hawliau nad ydynt yn gweithredu'r hawliau hynny, perchnogion tir, tenantiaid, trwyddedau pori, cymdeithasau tiroedd comin<br>• Bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer Swyddogion Glastir, a chynorthwyo i gydlynu pob set berthnasol o wybodaeth/data sydd eu hangen ar gyfer proses Cais Tiroedd Comin Glastir<br>• Chwilio am ymgynghorwyr technegol, cyfreithiol a phroffesiynol, ac ymgysylltu â nhw<br>• Sicrhau fod defnyddwyr tiroedd comin a chymdeithasau pori/tiroedd comin yn ymwybodol o newidiadau i bolisïau ar diroedd comin, a'u hannog i chwarae rhan lawn yn y newidiadau hynny<br>• Lledaenu gwybodaeth am newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu tir comin a hawliau comin, a chynorthwyo cominwyr i ddeall y newidiadau a sut y byddant yn effeithio arnynt<br>• Annog a chydlynu arferion rheoli derbyniol, gan gynnwys unrhyw waith gwella, fel bod amcanion y grŵp a Glastir yn cael eu rhoi ar waith. Gallai hyn gynnwys dynodi cyfnodau pan fydd y tiroedd wedi cau, sefydlu lefelau pori cynaliadwy, gwelliannau o ran mynediad, rheoli cynefinoedd a rheoli pori<br>• Mae pob un o'r uchod ar gyfer oes y rhaglen (hyd at 31 Rhagfyr 2013). Ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd y rhaglen yn parhau y tu hwnt i'r dyddiad |
| Manyleb Bersonol | *Sgiliau Hanfodol*<br>• Gallu cyfathrebu gan ddefnyddio iaith nad yw'n or-dechnegol, â sgiliau cyflwyno a thrafod rhagorol |

| | |
|---|---|
| | • Gallu cyfathrebu ag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, a gallu ennyn eu hyder, eu hymddiriedaeth a'u parch<br>• Profiad o weithio yn y diwydiant amaeth a'r sector cig eidion/defaid yng Nghymru, ac arferion ffermio ar diroedd comin<br>• Profiad o annog a hwyluso cydweithio / gweithio mewn partneriaeth<br>• Meddu ar drwydded yrru lawn, gallu defnyddio cerbyd, a bod yn barod i weithio oriau anghymdeithasol<br><br>*Dymunol*<br>• Chwaraewr tîm rhagorol, gyda hyblygrwydd o ran dull o weithio a'r hyn a wneir<br>• Sgiliau rheoli prosiect da, a gwybodaeth ymarferol o reoli busnes<br>• Hunan ysgogiad a hunanddisgyblaeth gref, a'r gallu i weithio ar ei fenter/ei menter ei hun<br>• Gallu nodi ac olrhain cyfleoedd, a chwrdd â dyddiadau cau<br>• Gallu cyfathrebu drwy'r Gymraeg (bydd hon yn ***Sgil Hanfodol*** mewn ardaloedd lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg) |

**Atodiad (iv)**

Holiadur Arolwg Cymdeithasau Porwyr

## Gwerthuso Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin

# Croeso i'r Ffurflen Cofnodi Data ar gyfer Gwerthuso Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin

Bydd y ffurflen hon ar gael tan Hydref 10fed 2012.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen cofnodi data hon, cysylltwch â Nick Lewis ar nlewis@glos.ac.uk neu 01242 714125/714122.

## Gwerthuso Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin

Tudalen 2 o 9

# Rhan 1 – Gwybodaeth Gefndir

### Rhan 1 – Gwybodaeth Gefndir

Ffeithiau sylfaenol am y tir comin a sut y caiff ei reoli - i'w chwblhau ar gyfer pob cyfweliad.

**1.** Enw'r Gymdeithas Bori.

**2.** Enw Cyswllt (Dewisol)

**3. CYN** ymuno â Glastir, beth oedd cyfanswm arwynebedd y tir a reolwyd gan Gymdeithas y Porwyr

○ Hectarau ○ Erwau

**a.** Arwynebedd:

**b. CYN** ymuno â Glastir, nodwch pa un a oedd y tir comin yn: *(Dewisol)*

○ Uned Tir Comin Sengl

○ Unedau Tir Comin Lluosog

**c.** Nodwch Godau Uned y Tir (e.e CL123/CL789)

**4.** Beth yw enw'r Awdurdod Lleol lle y lleolir **CYMDEITHAS Y PORWYR**

**5.** Pa ddynodiadau sy'n berthnasol i'r tir comin CYFAN NEU RAN ohono? *(dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Parc Cenedlaethol

Ardal Cadwraeth Arbennig

Heneb Gofrestredig

Ardal Gwarchodaeth Arbennig

Ardal Amgylcheddol Sensitif

...neu DIM DYNODIADAU AR Y TIR COMIN

Arall *(nodwch)*:

**6.** Ym mha flwyddyn y mynegodd eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr ddiddordeb gyntaf yn Elfen Tir Comin Glastir?

**7.** Beth oedd cyfanswm arwynebedd y tir **A YMUNODD Â GLASTIR** naill ai mewn:

Hectarau

Erwau

**a.** Arwynebedd:

**b.** Nodwch pa un a oedd y tir comin **A YMUNODD Â GLASTIR** yn:

Uned Tir Comin Sengl

Unedau Tir Comin Lluosog

**c.** Nodwch Godau Uned y Tir (e.e CL123/CL789)

## Gwerthuso Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin

Tudalen 3 o 9

# Rhan 2 - Gweithgarwch Cyn-Glastir ar y Tir Comin

**Mae'r adran hon yn ystyried y ffordd y cafodd y tir comin ei reoli cyn Elfen Tir Comin Glastir a chyn yr adeg pan oedd y Swyddogion Tiroedd Comin ar gael**

**8.** A gafodd eich tir comin ei reoli'n weithredol gan Gymdeithas y Porwyr cyn

Elfen Tir Comin Glastir?

Do

Naddo

Ddim yn gwybod

Os da, pa waith rheoli a wnaed *(dewiswch bob un perthnasol)*

Pori

Rheoli grugiar

Cadwraeth bywyd gwyllt

Rheoli rhedyn

Llosgi (Eithin/Grug)

Mynediad (Llwybr Troed/Llwybr Ceffylau ac ati)

Arall *(nodwch os gwelwch yn dda)*:

**9.** A oedd y porwyr yn cyfarfod â'i gilydd?

Oeddent

Na

Ddim yn gwybod

Os oeddent, a oedd hyn:

yn gyfarfod ffurfiol o Gymdeithas y Porwyr, neu

yn Gyfarfod Anffurfiol

**i.** Ym mha flwyddyn y sefydlwyd eich cymdeithas?

**10.** A wnaeth y porwyr ymuno **NEU** ystyried ymuno â chynllun amaeth-amgylchedd cyn ymuno ag Elfen Tir Comin Glastir?

Do

Naddo

Ddim yn gwybod

Os do, pa gynllun yr ymunwyd ag ef? *(dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

Tir Gofal

Tir Cymen

AAS

NID YMUNWYD Â CHYNLLUN, DIM OND YSTYRIED GWNEUD HYNNY

Arall *(nodwch)*:

**11.** A oes grwpiau diddordeb eraill (megis cadwraeth natur/hamdden/treftadaeth) yn gysylltiedig â Chymdeithas y Porwyr neu â'r gwaith o reoli eich tir comin?

Oes

- Nac oes
- Ddim yn gwybod

Os oes, yn gyffredinol, i ba raddau y maent yn cefnogi Cymdeithas y Porwyr a'i hymgais i ymuno â Glastir?

- Cefnogol iawn
- Yn gefnogol i ryw raddau
- Ddim yn gefnogol nac yn anghefnogol
- Anghefnogol
- Yn gwrthwynebu'n llwyr

## Gwerthuso Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin

Tudalen 4 o 9

# Rhan 3 - Cyswllt cychwynnol â'r Swyddog Tir Comin

**Mae'r adran hon yn ystyried y rhyngweithio cychwynnol gyda'ch Swyddog Tir Comin**

**12.** Ble y clywsoch GYNTAF am Elfen Tir Comin Glastir?

Gwlad

- Taflen/Llythyr/Galwad ffôn gan y Swyddog Tir Comin
- Undeb Ffermio
- Y Wasg Ffermio
- Argymhelliad personol
- Arall *(nodwch)*:

**13.** Beth yn eich barn chi oedd y **PRIF** reswm y gwnaethoch chi a'r porwyr eraill fynegi diddordeb yn Glastir?

Gwelliant amgylcheddol

- Cymorth ariannol
- Darparu/ehangu mynediad
- Annog dulliau rheoli gweithredol ar gyfer y tir/oedd comin
- Derbyniwyd Llythyr gan Swyddog Tir Comin
- Arall *(nodwch)*:

**14.** A allwch chi gadarnhau ar ba gam y mae eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr ar hyn o bryd gyda'r cais i Glastir?

Wedi tynnu diddordeb yn Glastir yn ôl

Yn trafod yn fewnol yn dilyn cyswllt cychwynnol gyda'r Swyddog Tir Comin

Wedi cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb

Wrthi'n datblygu cais llawn

Wedi cyflwyno cais llawn

Wedi cael cytundeb llawn gan Glastir

**a.** Os gwnaeth eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr dynnu yn ôl o'r cynllun, eglurwch y rhesymau dros wneud hynny:

**Pa gam bynnag yr ydych arno ar hyn o bryd (h.y. wedi tynnu yn ôl, wrthi'n gwneud cais neu wedi ymuno â Glastir) parhewch i roi rhywfaint o adborth ar rôl y Swyddog Tir Comin**

## Gwerthuso Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin

Tudalen 5 o 9

# Rhan 4 - Gwerthuso rôl Swyddog Tir Comin

**Mae'r rhan hon yn greiddiol i'r gwaith ymchwil ac yn anelu at asesu effaith y Swyddogion Tir Comin wrth gydgysylltu a helpu Cymdeithasau'r Porwyr i ystyried Glastir ac ymuno ag ef**

**15.** A wnaeth eich Swyddog Tir Comin roi gwybodaeth ysgrifenedig i chi am Glastir?

Do

Naddo

Ddim yn gwybod

*(dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

Dogfen gyflwyniadol a gynhyrchwyd gan CDO/LAG

Llywodraeth Cymru - Llyfryn Arweiniad yr Elfen Tir Comin

Arall

Arall *(nodwch)*:

**16.** A gafodd eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr gyfarfod i drafod cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i Glastir?

Do

Naddo

Ddim yn gwybod

Os do, a gymerodd y Swyddog Tir Comin unrhyw ran yn y cyfarfod hwnnw?

Do

Naddo

Ddim yn gwybod

**17.** A drafodwyd y Cod Tir Comin gydag aelodau o Gymdeithas y Porwyr?

Do

Naddo

Ddim yn gwybod

**18.** A wnaeth eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb?

Do

Naddo

Ddim yn gwybod

A arweiniodd y Datganiad hwn o Ddiddordeb at gyflwyno **cais llawn**?

Do

Naddo

Ddim yn gwybod

A wnaeth eich Swyddog Tir Comin helpu i ymgynghori â'r holl bartïon perthnasol megis unigolion nad ydynt yn borwyr, tirfeddianwyr, CCGC, Parciau Cenedlaethol ac ati. (Tabl 3.0)

Do

Na

Ddim yn Gwybod

**ii.** A wnaeth eich swyddog tir comin gynnig helpu gyda: *(dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

Trafodaethau a llofnodi cyfansoddiad a chytundeb (newydd) i aelodau

Dod o hyd i arbenigwr cyfreithiol i ddilysu'r fersiwn terfynol

Talu'r ffioedd cyfreithiol a oedd yn gysylltiedig â'r cyfansoddiad a'r cytundeb i

aelodau

Llunio cytundeb mewnol terfynol i gefnogi'r cais i Glastir

Eich tywys drwy'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar gyfer y ffurflen gais

...NEU NI CHYNORTHWYODD Y SWYDDOG GYDAG UNRHYW RAI O'R RHAIN

**iii.** A gafodd eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr gyfarfod i drafod y cais llawn i ymuno â Glastir?

Do

Naddo

Ddim yn Gwybod

# C18 iv DIM OND YN BERTHNASOL OS MAI 'DO' OEDD YR ATEB I'R CYFARFOD (C18 iii)

**iv. Os do**, a gymerodd eich Swyddog Tir Comin ran yn y cyfarfod hwnnw?

Do

Naddo

Ddim yn Gwybod

NID YW'R CWESTIWN YN BERTHNASOL

**v.** A fu cais eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr yn llwyddiannus?

Do

Naddo

Aros i glywed

## Gwerthuso Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin

Tudalen 6 o 9

# Ceisiadau llwyddiannus i Glastir

**DIM OND** i'r rheini y cymeradwywyd eu ceisiadau ac a symudodd i'r cam llofnodi contractau y mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol

## Er bod y cwestiwn canlynol o bosibl wedi'i ailadrodd, mae ei angen er mwyn hwyluso'r cwestiynau dilynol

**19.** A fu cais Cymdeithas y Porwyr i Glastir yn llwyddiannus?

DO – CAIS LLWYDDIANNUS

NADDO/AROS I GLYWED - NEU NID YW'R CWESTIWN YN BERTHNASOL, NI CHYFLWYNWYD CAIS

**a.** A wnaeth eich Swyddog Tir Comin eich tywys mewn perthynas â: *(dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

Ymgynghori ag aelodau'r Gymdeithas ar lofnodi'r contract?

Cadarnhau'r manylion a'r mapiau yn y contract?

Cwblhau'r trafodaethau gyda CCGC?

Coladu a chofnodi'r deiliaid hawliau ar y tir comin?

Sicrhau cyngor proffesiynol annibynnol?

Trafod cosbau'r Elfen Tir Comin?

Talu ffioedd cyfreithiol cyfreithiwr er mwyn cytuno ar y cyfansoddiad terfynol a'r cytundeb terfynol i aelodau?

...NEU NI CHYNIGIODD Y SWYDDOG UNRHYW ARWEINIAD

**b.** A wnaeth eich Swyddog Tir Comin gyfeirio Cymdeithas y Porwyr at: *(dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

Canfod effaith gweithgareddau pori gan y rheini nad oeddent yn bwriadu bod yn aelodau o'r cynllun?

Trefnu gwasanaethau cyfreithiwr er mwyn cytuno ar y cyfansoddiad terfynol a'r cytundeb terfynol i aelodau?

...NEU NI CHYFEIRIODD Y SWYDDOG O GYMDEITHAS Y PORWYR

**c.** A gafodd eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr gyfarfod i drafod y contract i ymuno â Glastir?

Do

Naddo

Ddim yn Gwybod

## DIM OND OS MAI 'DO' OEDD YR ATEB I C19 RHAN C Y DYLECH OFYN Y CWESTIWN CANLYNOL

**d.** Os **CAFODD** eich cymdeithas gyfarfod, a gymerodd eich Swyddog Tir Comin unrhyw ran?

Do

Naddo

Ddim yn Gwybod

...NEU NID YW'R CWESTIWN YN BERTHNASOL - DIM CYFARFOD

## GOFYNNWCH GWESTIWN E I BOB YMATEBWR

**e.** A lofnododd eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr gontract Glastir

Do

Naddo

dan ystyriaeth/dim penderfyniad hyd yma

...NEU NID YW'R CWESTIWN YN BERTHNASOL

## DIM OND OS NA LOFNODODD YR YMATEBWR GONTRACT GLASTIR Y DYLECH OFYN CWESTIWN 'F'

**f.** Os NA lofnododd eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr gontract Glastir, beth oedd y rheswm dros hyn:
(Mae angen testun yn y blwch - teipiwch Dd/G os nad yw'n gymwys)

## DIM OND I'R RHEINI SYDD WEDI LLOFNODI CYTUNDEB GLASTIR Y DYLECH OFYN Y CWESTIWN HWN

**g.** Ers llofnodi'r contract, a yw eich Swyddog Tir Comin wedi eich helpu gyda'r tasgau canlynol sy'n gysylltiedig â'ch cytundeb Glastir? *(dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

Cyngor ar ethol swyddogion

Datblygu dyddiadur stoc

Paratoi tystiolaeth i'w harchwilio

Cymorth i gadw cofnodion

Penodi cynghorydd allanol er mwyn helpu i roi'r cynllun ar waith

Nid yw'r swyddog wedi helpu gydag UNRHYW RAI o'r rhain

...NEU NID YW’R CWESTIWN YN BERTHNASOL

# Rhan 5 - Asesiad Cyffredinol o effaith y Swyddog Tir Comin a meysydd eraill lle gallai'r Swyddog Tir Comin fod wedi cymryd rhan

## Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â rôl Swyddogion Tir Comin wrth roi cytundebau Glastir ar waith

**20.** Nodwch bwysigrwydd rolau canlynol eich Swyddog Tir Comin i'ch cangen chi o Gymdeithas y Porwyr:

| | Pwysig iawn | Eithaf pwysig | Ddim mor bwysig â hynny | Ddim yn bwysig | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| **a.** Mewnbwn i ddatblygu cytundeb Glastir | | | | | |
| **b.** Gwirio manylion y cais i Glastir | | | | | |
| **c.** Ei wybodaeth mewn perthynas â'r cytundeb/cais i Glastir | | | | | |
| **d.** Y bartneriaeth fewnol a ddatblygwyd ar gyfer y cytundeb/cais i Glastir | ○ | ○ | ○ | | ○ |

**21.** Pa mor effeithlon oedd mewnbwn eich Swyddog Tir Comin mewn perthynas â chais a chytundeb Glastir?

- ○ Effeithlon iawn
- ○ Eithaf effeithlon
- ○ Effeithlon i raddau
- ○ Aneffeithlon
- ○ Aneffeithlon iawn
- ○ DDIM YN BERTHNASOL

**22.** Gan ystyried popeth, beth yw eich barn ar gyfranogiad eich Swyddog Tir Comin wrth helpu eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr gyda phroses Glastir?

- ○ Gwael
- ○ Gweddol
- ○ Da
- ○ Ardderchog
- ○ DDIM YN BERTHNASOL

**23.** O brofiad eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr, beth oedd **mewnbwn pwysicaf** y Swyddog Tir Comin? *(Dewisol)*

**24.** O brofiad eich cangen chi o Gymdeithas y Porwyr, a oedd unrhyw beth **na lwyddodd** y Swyddog Tir Comin i'w gynnig i chi? *(Dewisol)*

**25.** A gynorthwyodd eich Swyddog Tir Comin drwy ddarparu cyngor arall mewn perthynas â Thiroedd Comin **ac eithrio Glastir** na chafodd ei gwmpasu yma? *(Dewisol)*

- Do
- Naddo
- Ddim yn Gwybod

Nodwch fanylion

**26.** A oes unrhyw sylwadau eraill neu adborth o ran rôl eich Swyddog Tir Comin na chawsant eu cwmpasu gennym? *(Dewisol)*

## Gwerthuso Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin

Tudalen 8 of 9

# Manylion cau'r cyfweliad

### Gwybodaeth am y cyfweliad

**27.** Cyfwelydd *(Dewisol)*

**28.** Dyddiad y cyfweliad *(Dewisol)*

(DD-MM-BBBB)

**29.** Sut y cynhaliwyd y cyfweliad *(Dewisol)*

- Ffôn
- Wyneb yn wyneb

**Diolch a sylwadau i gloi**

Diolchwch i'r cyfwelai am ei amser

Atgoffwch y cyfwelai y caiff ei atebion eu trin yn gyfrinachol ac na chaiff unrhyw unigolyn ei enwi wrth ddefnyddio dyfyniadau ac ati

**Mae'r cyfweliadau yn cael eu cynnal ar ran Siôn Brackebury yn Commons Visions a'r Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymuned**

www.commonsvision.com

**www.ccri.ac.uk**